Yn y sector annibynnol mae ein pwerau cyfreithiol yn ein helpu i sicrhau bod gwasanaethau perthnasol yn cofrestru â ni ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar gwmpas ein pwerau ac unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth gyfredol. Yn y GIG, rydym wedi cyfrannu at ddatblygu Bil drafft Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), gan gynnwys darparu tystiolaeth ysgrifenedig ac ymddangos gerbron sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor.

Cynnydd yn erbyn ein Cynllun Strategol 2018-21

Bod yn fwy gweladwy

Er mwyn cyflawni ein nod strategol, mae angen i ni wella dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o'n gwaith, a'u hymgysylltiad ag ef.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi llwyddo i ddod yn fwy gweladwy fel sefydliad. Yn 2018, roedd ychydig dros chwarter y bobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r arolygiaeth[3]. Yn 2019, roedd wedi cynyddu i ychydig o dan 40 y cant[4]. Rydym wedi cyflawni hyn drwy wneud sawl darn o waith.

Rydym wedi treialu dull creadigol newydd o gyflwyno ein canfyddiadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch a diddorol. Yn ein Hadolygiad Cenedlaethol o Ofal Integredig: Canolbwyntio ar Gwympiadau, gwnaethom gyflwyno animeiddiadau ac enghreifftiau o lwybrau gofal delfrydol a chamweithredol, yn seiliedig ar ein canfyddiadau. Y nod oedd ceisio egluro'n well brofiad unigolion o atal a thrin cwympiadau a helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd i ddeall sut beth yw gofal da. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y dull hwn o weithredu ac mae'n sail gadarn i rannu canfyddiadau adolygiadau o systemau gofal cymhleth yn y dyfodol.

Rydym wedi datblygu strategaeth ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol sydd, ar y cyd ag adnoddau digidol eraill, wedi ein helpu i gynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn ein gwaith yn fwy. Yn arbennig, fel rhan o'n Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth, gwnaethom weithio'n agos gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru i greu arolwg cleifion a staff ar-lein. Hyrwyddwyd yr arolwg ar ein tudalen Facebook newydd yn bennaf a thrwy ein gwaith i ymgysylltu â sefydliadau lleol er mwyn helpu i godi proffil ein gwaith mewn cymunedau. O ganlyniad i hyn, rhannodd dros 3,300 o gleifion a 600 o aelodau o staff eu barn am wasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Bellach, mae arolygon ar-lein yn fater o drefn mewn arolygiadau, ochr yn ochr â dulliau mwy traddodiadol, gan alluogi pobl i wneud sylwadau a rhoi adborth mewn cynifer o ffyrdd â phosibl.

O ganlyniad i'n strategaeth mae ein presenoldeb ar-lein wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu'n sylweddol, ynghyd â nifer yr ymweliadau â'n gwefan a'r niferoedd sydd wedi tanysgrifio i'n cylchlythyr.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein henw da a pha mor weladwy ydym drwy fynd i gynadleddau a seminarau allweddol i rannu ein canfyddiadau a'r gwersi sy'n deillio o'n gwaith. Yn ystod Sioe Frenhinol Cymru yn 2019, cymerodd 368 o bobl ran yn ein harolwg am waith a chanfyddiadau AGIC, a gwnaethom siarad â dros 480 o aelodau'r cyhoedd am eu profiadau gofal iechyd. Hefyd, defnyddiwyd cynadleddau Conffederasiwn GIG Cymru a Gwelliant Cymru i gyflwyno ein canfyddiadau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn annog gwelliant.

Rydym hefyd wedi meithrin cydberthynas gryfach ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff proffesiynol eraill er mwyn gwella dealltwriaeth o'n rôl a'n diben, a sut y gallwn gydweithio i gefnogi gwelliant.

Mae ein Huwchgynadleddau Gofal yn parhau i chwarae rôl hollbwysig wrth rannu gwybodaeth a chynrychioli barn gyfunol y rhai sy'n craffu ar ofal iechyd ledled Cymru.

[3] Omnibws Cymru, Beaufort Research Ltd - Medi 2018

[4] Omnibws Cymru, Beaufort Research Ltd - Medi 2019

Cynnydd yn erbyn ein Cynllun Strategol 2018-21

Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

Ased gorau AGIC yw ei phobl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu ymhellach fel sefydliad. Mae ein harolwg staff diweddaraf yn dangos gwelliant ym mhob maes, gyda'r sefydliad yn cyflawni ei ganlyniadau gorau erioed o ran ymgysylltu â'i staff, rheoli newid a sicrhau bod gennym yr hyn sydd ei angen i wneud ein gwaith.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r sefydliad wedi newid yn sylweddol, o ran adeiladu capasiti i gynyddu ein gweithgarwch craidd o fewn y GIG a thrwy gyflwyno systemau TGCh newydd sy'n diogelu gwybodaeth yn well ac wedi ein gwneud yn fwy effeithlon. Er hyn, yn yr arolwg staff mwyaf diweddar, rydym wedi parhau i gael adborth cadarnhaol ar reoli'r broses newid a galluogi pobl i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Wrth recriwtio arolygwyr newydd aethom ati i adnewyddu a gwella ein proses sefydlu er mwyn sicrhau bod staff newydd yn effeithiol yn eu rolau mor gyflym â phosibl. O ganlyniad i hyn, gwnaethom lwyddo i gyflawni mwy o arolygiadau yn ystod y flwyddyn a gweithio ar adolygiadau cenedlaethol a lleol newydd.

Mae ein gwelliannau digidol, gan gynnwys arolygiadau di-bapur a thaliadau ar-lein, bellach yn rhan gwbl integredig o'n prosesau busnes ac rydym wedi symud i gam adeiladu system rheoli gwybodaeth a data newydd y sefydliad, sef prosiect a fu'n flaenoriaeth drwy gydol y flwyddyn.

Drwy roi mwy o bwyslais ar ddysgu a datblygu, rydym wedi cymryd camau breision tuag at ddod yn sefydliad dysgu. Mewn arolwg staff diweddar, nododd y rhan fwyaf o bobl eu bod o'r farn eu bod yn gallu achub ar y cyfleoedd dysgu a datblygu iawn pan fo angen, a bod gweithgareddau y maent wedi eu cwblhau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi helpu i wella eu perfformiad.

Rydym hefyd wedi adolygu'r ffordd rydym yn defnyddio adolygwyr lleyg gwirfoddol, gan greu sail gadarn i gyflwyno rhwydwaith newydd o Arbenigwyr drwy Brofiad ac Adolygwyr Profiad Cleifion a fydd yn gwella'r broses o gofnodi llais y claf yn ystod arolygiadau.

Adolygiadau Cenedlaethol a Lleol

Mae AGIC yn cynnal adolygiadau cenedlaethol sy'n ei galluogi i archwilio'r modd y darperir gwasanaethau ledled Cymru. Rydym hefyd yn cynnal adolygiadau lleol o faterion a all fod yn benodol i un sefydliad neu ranbarth arbennig.

Awgrymiadau ar gyfer Adolygiadau

Mae sawl ffactor yn ein helpu i benderfynu pryd a ble y dylid cynnal adolygiad cenedlaethol neu leol, gan gynnwys gwybodaeth gan reoleiddwyr neu arolygiaethau eraill, a gwybodaeth a nodir pan godir pryderon neu pan wneir cwynion. Drwy ffurflen awgrymu pwnc adolygiad ar ein gwefan, rydym yn annog pobl i rannu eu barn am yr hyn y dylem edrych arno.

Caiff yr holl awgrymiadau sy'n dod i law eu hadolygu gan ein Bwrdd Llywio Adolygiadau. Mae'r grŵp hwn yn ymchwilio i'r pynciau a awgrymir, ac yn eu trafod a'u blaenoriaethu, gan wneud argymhellion ar gyfer unrhyw waith pellach y gallem ei wneud. Ein Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio, sy'n ystyried blaenoriaethau ac adnoddau AGIC, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol am droi awgrym yn adolygiad.

Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth

Gwnaethom benderfynu cynnal yr adolygiad hwn oherwydd y pryderon a godwyd ynghylch pwysau o fewn gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, a'r materion a nodwyd yn ystod ein harolygiad o wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ym mis Hydref 2018.

Mae'r adolygiad ar ddau gam ac yn edrych ar brofiadau menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd, a'r graddau y mae byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol. Mae hefyd yn anelu at alluogi byrddau iechyd i adnabod cryfderau eu gwasanaethau mamolaeth, ynghyd â meysydd lle mae angen gwella.

Roedd cam un yn cynnwys 15 o arolygiadau dirybudd o unedau mamolaeth ysbytai, 11 o unedau geni mamolaeth cartrefol, cyfweliadau â thimau gweithredol, bwrw golwg dros ddogfennau llywodraethu, ac arolygon helaeth gyda'r cyhoedd a staff gwasanaethau mamolaeth. Mae canfyddiadau'r arolygiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a chaiff adroddiad cam un yr adolygiad ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2020.

Roedd enghreifftiau o arferion da a nodedig ym mhob bwrdd iechyd. Fodd bynnag, roedd ansawdd y gofal a'r driniaeth yn amrywio rhywfaint ac roedd angen tynnu sylw at nifer o faterion, gan gynnwys archwilio cyfarpar, cynnal archwiliadau, dysgu a threfniadau atal a rheoli heintiau.

Bydd cam dau yn dechrau ym mis Hydref 2020, gan gynnwys ymweliadau â gwasanaethau cymunedol, megis gofal cynenedigol ac ôl-enedigol.



Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Atal Argyfyngau Iechyd Meddwl

Yn ystod 2019-20 gwnaethom ddechrau pennu cwmpas adolygiad cenedlaethol o wasanaethau atal argyfyngau iechyd meddwl ledled Cymru. Nododd ein gwaith blaenorol, gan gynnwys ein Hadolygiad o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol a'n Hadolygiad o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, fod angen gwella'r broses o reoli pobl sy'n wynebu argyfwng a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau mewn modd amserol.

Dechreuodd yr adolygiad ar ddechrau 2020 a bydd yn mynd rhagddo drwy'r flwyddyn, gan ddod i ben yn ystod gwanwyn 2021. Byddwn yn adolygu ein canfyddiadau blaenorol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael inni, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ym maes argyfyngau iechyd meddwl gan sefydliadau eraill yng Nghymru. Ein nod yw nodi unrhyw themâu, tueddiadau neu bryderon sydd wedi dod i'r amlwg yn genedlaethol, a nodi arferion da wrth gefnogi pobl, er mwyn helpu i atal argyfwng iechyd meddwl.

Adolygiad o Ofal Integredig: Canolbwyntio ar Gwympiadau

Ym mis Medi 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad cenedlaethol o'r llwybr gofal integredig ar gyfer cwympiadau ymysg pobl dros 65 oed yng Nghymru: Adolygiad o Ofal Integredig – Canolbwyntio ar Gwympiadau. Mae cwympo yn broblem gyffredin i bobl hŷn, gydag un o bob tri pherson dros 65 oed yn debygol o gwympo bob blwyddyn.

Roedd hwn yn adolygiad arloesol lle nodwyd enghreifftiau o lwybrau delfrydol a chamweithredol. Gwnaethom gynhyrchu cyfres o fideos wedi'u hanimeiddio i esbonio profiad unigolion o'r llwybr cwympiadau yn well.

Gwnaethom wyth argymhelliad allweddol a thynnwyd sylw at yr hyn y gallai staff sy'n gweithio gyda phobl hŷn sy'n wynebu risg o gwympo, yn ogystal â rheolwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ei ddysgu. Gwnaethom argymell y dylid llunio Fframwaith Cwympiadau Cenedlaethol i Gymru, er mwyn safoni'r dull o atal, trin ac ailalluogi pobl hŷn sy'n wynebu'r risg o gwympo neu sydd wedi cwympo'n barod. Gwnaethom hefyd argymell y dylai pob bwrdd iechyd weithio'n agos gydag awdurdodau lleol yn ei ardal i lunio llwybr lleol ar gyfer cwympiadau a all fod yn hyblyg i anghenion yr unigolyn, ac sydd hefyd yn gyson â fframwaith cenedlaethol.



Adolygiadau Lleol

Adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd adolygiad hynod feirniadol o wasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Nododd yr adolygiad hwn nifer o bryderon difrifol a methiannau mewn gwasanaethau.

Yn rhannol mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yn ogystal â'n pryderon ni'n hunain am systemau llywodraethu a rheoli risg, aed ati i gynnal adolygiad ar y cyd brys o drefniadau llywodraethu gydag Archwilio Cymru.

Cynhaliwyd yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ystod haf 2019 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019. Tynnodd sylw at nifer o faterion a gwendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd a nodwyd 14 o argymhellion ar gyfer gwella, yr ymhelaethir arnynt ar dudalennau 46 - 47.

Cafodd canfyddiadau'r adolygiad ar y cyd eu derbyn yn llawn gan y bwrdd iechyd. Er ein bod wedi ein calonogi gan ymateb y bwrdd iechyd i argymhellion yr adolygiad, ni ddylid tanamcangyfrif yr heriau a wynebir i wella trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion, a bydd yn gofyn am ymrwymiad a ffocws parhaus gan y bwrdd iechyd.

Mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion a godir yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag unrhyw wersi ehangach mewn perthynas â'r ffordd y gall gael sicrwydd ynghylch cadernid trefniadau llywodraethu ansawdd o fewn cyrff eraill y GIG.

Public Health Wales

Ym mis Tachwedd 2019, dechreuodd AGIC adolygu Bron Brawf Cymru, sef rhaglen sgrinio'r fron y GIG a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC).

Diben yr adolygiad oedd edrych i weld a yw'r broses o sgrinio'r fron yn cael ei rheoli'n amserol ar gyfer menywod sy'n cael canlyniad mamogram abnormal.

Gwnaethom siarad â staff ym mhencadlys ICC, a staff mewn canolfannau sgrinio'r fron rhanbarthol yng Nghaerdydd, Llandudno ac Abertawe.

Defnyddiwyd arolwg i gasglu barn menywod a ailalwyd i glinig asesu ac a gafodd canlyniad anfalaen (ni nodwyd canser) wedyn.

Roedd yn galonogol iawn nodi bod menywod wedi cael profiad ardderchog ar y cyfan. Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad rai heriau o ran y gweithlu rhanbarthol ledled Cymru sy'n effeithio ar amseroldeb y gofal a gaiff menywod. Hefyd, roedd staff Bron Brawf Cymru yn ofalgar, yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i fenywod.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Hydref 2020.



Adolygiadau Lleol

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Fel rhan o raglen AGIC o adolygiadau lleol a'r pryderon parhaus ledled Cymru ynghylch amseroedd aros am ambiwlans, gwnaethom ddechrau adolygiad lleol o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym mis Tachwedd 2019. Ystyriodd yr adolygiad sut y caiff y risgiau i iechyd, diogelwch a lles cleifion eu rheoli tra byddant yn aros am ambiwlans.

Nod yr adolygiad oedd asesu'n benodol sut roedd cleifion yn cael eu rheoli gan dair Canolfan Cyswllt Clinigol y Gwasanaeth Meddygol Brys pan ddaw cais am ambiwlans i law, hyd at yr adeg pan fydd yr ambiwlans yn cyrraedd y claf. Ystyriodd yr adolygiad hefyd sut y caiff y staff sy'n gweithio yn y Canolfannau Cyswllt Clinigol eu cefnogi a'u hyfforddi i ymgymryd â'u rolau, a'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi i wneud hynny.

Ar y cyfan, nododd ein hadolygiad fod prosesau ar waith sy'n anelu at ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi materion a oedd yn cael effaith negyddol ar allu'r gwasanaeth i ymateb i'r galw. Hefyd, roedd gennym bryderon am swyddi gwag, a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a chefnogaeth, a oedd ar gael i'r staff i'w galluogi i gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol a phriodol.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2020.

Canfyddiaddau Arolygiadau

Ysbytai'r GIG

Yn 2019-20 gwnaethom arolygu 38 o ysbytai ledled Cymru, gan gynnwys tri ysbyty cymunedol. Ystyriodd pob arolygiad sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal mewn tri maes: ansawdd profiad y claf; darparu gofal diogel ac effeithiol; ac ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Parhaodd y cleifion i ganmol ymroddiad, caredigrwydd a thosturi'r staff yn ein holl arolygiadau. Er bod y lleoliadau yn brysur iawn, daeth bron pob un o'n harolygiadau i'r casgliad bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ym mron pob agwedd ar eu gofal. Gwelsom sawl enghraifft o waith tîm amlddisgyblaethol da, sy'n cyfrannu at brofiad y cleifion, a hefyd systemau trin a rhyddhau cleifion effeithlon.

"Staff gwych. Bwyd blasus iawn. Mae'r staff bob amser yn barod i'ch helpu." – Claf ym mwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro

Mae arweinyddiaeth ar lefel ward a gwasanaeth yn hollbwysig i'r gwaith o ddarparu gofal effeithiol i'r cleifion. Nododd y rhan helaeth o'n harolygiadau fod y rheolwyr yn gefnogol a bod yr arweinwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir bob amser ac, ar nifer bach o adegau, dywedodd y staff wrthym fod angen i'r diwylliant arwain wella er mwyn eu helpu i gyflawni eu rolau. Mae neilltuo amser i'r staff nyrsio gwblhau hyfforddiant ac arfarniadau hefyd yn broblem o hyd. Mae'n hanfodol bod buddiannau tymor hwy arweinyddiaeth dda a hyfforddiant parhaus yn cael eu cydnabod yn llawn ym mhob lleoliad.

"Rwy'n fodlon iawn ac yn ddiolchgar i reolwr fy ward am yr holl gymorth y mae'n ei roi i mi ac aelodau eraill y timau. Mae yma i'n cefnogi yn ystod materion proffesiynol a phersonol. Mae bob amser yn mynd yr ail filltir i gefnogi'r staff." – Aelod o staff ym mwrdd iechyd Hywel Dda

Gwnaethom arolygu pedair adran achosion brys fel rhan o'n rhaglen arolygu, a oedd yn cynnwys dau ymweliad dilynol i sicrhau yr aed i'r afael ag argymhellion ymweliadau blaenorol. Nododd yr holl arolygiadau hyn fod y cleifion yn gorfod aros amser hir a'i bod hi'n anodd cael gofal amserol. Mae lefelau staffio a nifer y cleifion mewn adrannau brys yn ffactorau amlwg wrth geisio cadw'r ddysgl yn wastad o ran yr hyn y gall y gwasanaeth ei gyflawni a'r galw sydd amdano. Fodd bynnag, mae ein gwaith yn tynnu sylw cynyddol at yr angen i wella llif cleifion drwy ysbytai er mwyn lleihau'r pwysau ar adrannau brys.

"Weithiau rwy'n mynd gartref yn fy nagrau oherwydd y pwysau sydd arna i am na alla i wneud popeth sydd ei angen. Mae cleifion ym mhob twll a chornel ac mae sawl un yn gorfod aros yng nghefn yr ambiwlans y tu allan" – Aelod o staff ym mwrdd iechyd Bae Abertawe

"Weithiau fe fydda i'n teimlo na alla i ofalu am y cleifion mewn ffordd effeithlon na diwallu eu hanghenion nhw, oherwydd y pwysau cynyddol sydd ar yr adran achosion brys" – Aelod o staff ym mwrdd iechyd Bae Abertawe

Canfyddiaddau Arolygiadau

Archwiliwn lendid a hylendid pob ward ac ardal a arolygwn ac anaml y nodir unrhyw broblemau. Fodd bynnag, yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol, nodwyd, er mawr siom, amgylcheddau budur, llawn llwch, mewn tri arolygiad, lle nad oedd amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Hefyd nodwyd dirywiad ar un safle penodol. Gwnaethom arolygu adran achosion brys yn 2017, gan nodi pa mor lân oedd y safle a chafodd y staff cadw tŷ eu canmol. Fodd bynnag, mewn arolygiad newydd o'r un safle yn 2020, gwelwyd baw, haenau mawr o lwch a chyfarpar nad oedd yn cael ei lanhau rhwng cleifion. Uwchgyfeiriwyd ein pryderon at y bwrdd iechyd ac roeddem yn fodlon ar y camau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa. Rhaid cadw wardiau yn lân er mwyn atal a rheoli heintiau a gall hyn beri risg fawr i gleifion.

Arolygwyd unedau pediatrig mewn tri arolygiad. Lluniwyd holiaduron cleifion newydd er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc ar y safleoedd hyn. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o'r defnydd o therapyddion chwarae i helpu'r plant drwy driniaethau, ac roedd cynlluniau chwarae unigol ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn mynd i fod ar y ward am gyfnod estynedig. Fodd bynnag, mewn dau arolygiad, nodwyd nad oedd cynllun y ward yn ei gwneud hi'n hawdd sicrhau preifatrwydd ac urddas yr holl gleifion. Un enghraifft o hyn oedd cleifion a rhieni yn gorfod cerdded drwy ardaloedd gwely ar wahân bechgyn a merched i fynd i'r ardd. Gwnaethom argymell gwelliannau i'r cynllun a chafodd y rhain eu cynnwys mewn gwaith buddsoddi yn yr uned a oedd i ddod.

"Rwy'n mwynhau chwarae gemau o amgylch y bwrdd" – Claf ym mwrdd iechyd Hywel Dda

"Roedd yr holl staff yma yn wych. Nid oedd fy mab wedi bod yn yr ysbyty o'r blaen ac roedd yn brofiad brawychus i bawb. Roeddent yn rhoi tawelwch meddwl, yn barod iawn i helpu ac yn garedig, gan wneud cyfnod anodd cymaint yn haws" – Gofalwr claf ym mwrdd iechyd Hywel Dda

Pan ystyriodd yr arolygwyr pa mor dda y cafodd ein hargymhellion blaenorol eu rhoi ar waith, roeddem yn falch i weld bod y rhan fwyaf wedi cael eu rhoi ar waith a'u bod yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd ambell un yn dal i fod yn weddill ac, er mawr siom, rydym yn dal i weld yr un materion yn codi mewn llawer o'n harolygiadau, yn enwedig o ran rheoli meddyginiaethau a'u storio'n ddiogel. Enghraifft o hyn yw hylifau IV a chyffuriau a reolir a adewir mewn ardaloedd agored, heb eu cadw dan glo.

Roedd archwiliadau annigonol a lefel wael o gynnal a chadw cyfarpar dadebru hefyd yn thema gyffredin. Disgwyliwn i'r byrddau iechyd rannu canfyddiadau ein harolygiadau â wardiau ac ysbytai eraill fel y gallant ddysgu gwersi, a gweld a oes angen i safleoedd eraill wneud gwelliannau tebyg. Mae angen cyflwyno systemau mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gadarn.

Canfyddiaddau Arolygiadau

Meddygfeydd

Eleni gwnaethom gynnal 25 o arolygiadau o feddygfeydd o fewn y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Ystyriodd pob arolygiad sut roedd y feddygfa yn cyrraedd y safonau iechyd a gofal.

Nodwyd bod y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol, ac roedd y staff yn barchus, yn gwrtais ac yn broffesiynol. Gwelsom amgylchedd croesawgar yn y rhan fwyaf o'r meddygfeydd, gyda safonau uchel o lendid yn y saith bwrdd iechyd. Yn ystod yr arolygiadau, gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth effeithiol gyda thimau rheoli cynhwysol a chydlynol ar waith. Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei gael.

Fodd bynnag, yn 2019-20 parhawyd i weld problemau yn trefnu apwyntiadau i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Dywedodd y cleifion wrthym am systemau trefnu apwyntiadau dros y ffôn gwael, bod angen aros amser hir i weld meddyg a bod oriau agor meddygfeydd yn fyr - awgrymodd llawer o'r cleifion y dylid cynnig apwyntiadau min nos neu ar benwythnosau.

Eleni gwnaethom gyflwyno 15 o Lythyrau Sicrwydd Uniongyrchol; roedd hyn bron deirgwaith yn fwy na blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y feddygfa yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel.

Roedd angen gwneud gwelliannau ar unwaith mewn wyth meddygfa a hynny'n ymwneud â chyflogi staff a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwiriadau cofnodion troseddol yw'r rhain y mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn eu cynnal ar staff newydd. Nodwyd nad oedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod presennol o'r staff, neu nid oedd modd dod o hyd i gofnodion. Rhaid cynnal gwiriadau DBS ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio mewn gofal iechyd, ar lefelau gwahanol, ac maent yn rhan hanfodol o sicrhau diogelwch cleifion.

"Staff hyfryd. Meddygon gwych. Ry'n ni mor ffodus bod gennym ni feddygon teulu mor dda ac nad oes angen dibynnu ar locwm pan fo'r wlad yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw meddygon" – Claf ym mwrdd iechyd Hywel Dda

"Staff gwych sy'n barod eu cymwynas bob amser. Tîm ardderchog, gofalgar" – Claf ym mwrdd iechyd Powys



Canfyddiaddau Arolygiadau

Nodwyd bod angen gwneud gwelliannau ar unwaith mewn perthynas â chynnal a chadw cyfarpar dadebru mewn pedair meddygfa. Gwelsom hen gyfarpar neu gyfarpar nad oedd wedi'i galibradu, ac nid oedd y cyfarpar dadebru yn cael ei archwilio bob amser. Mae angen y cyfarpar hwn rhag ofn y bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf a rhaid ei archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio bob amser.

Roedd hefyd angen gwneud gwelliannau ar unwaith i gynnal cofnodion imiwneiddio'r staff, yn enwedig Hepatitis B, ar bum safle. Dylai meddygfeydd allu darparu tystiolaeth bod pob aelod o'u staff wedi'u diogelu'n ddigonol rhag y feirws.

"Mae'r gofal a roddir yn y feddygfa hon bob amser wedi bod yn wych. Ond mae cyfyngiadau'r apwyntiad 5 munud; yr anawsterau wrth gynnal cysondeb o ran gweld yr un meddyg, a'r pryder ynghylch y gallu i gael apwyntiad oll yn golygu bod yr hyn a arferai fod yn wasanaeth cadarn a oedd yn rhoi tawelwch meddwl, dan fygythiad" – Claf ym mwrdd iechyd Hywel Dda

Nodwyd bod gan y rhan fwyaf o'r meddygfeydd brosesau cadw cofnodion cadarn ar gyfer cofnodion eu cleifion. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd gan rai meddygfeydd system glir ar waith i reoli atgyfeiriadau. Er enghraifft, roedd un feddygfa na allai gadarnhau a oedd atgyfeiriadau cleifion yn cael eu hanfon i'r adran gywir, neu a oeddent wedi'u prosesu mewn ffordd amserol.

O gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd gwelliant cyffredinol o ran y wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion yn ardaloedd aros y meddygfeydd. Roedd taflenni a phosteri ar gael i'r cleifion ar aros yn iach, a gwybodaeth am anhwylderau cyffredin. Hefyd, roedd gwelliant clir o ran arddangos gwybodaeth am sut i gwyno a phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

"Mae'n anodd cysylltu dros y ffôn. Efallai nad oes digon o linellau" – Claf ym mwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro

Canfyddiaddau Arolygiadau

Deintyddfeydd

Yn 2019-20 gwnaethom barhau i weithio gyda'n hadolygwyr cymheiriaid deintyddfeydd i sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth ddeintyddol yn unol â chanllawiau proffesiynol a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Safonau Iechyd a Gofal a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom arolygu 68 o ddeintyddfeydd cyffredinol, a oedd yn cynnwys pum ymweliad dilynol i sicrhau yr aed i'r afael ag argymhellion ymweliadau blaenorol.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r deintyddfeydd gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) cyfarpar deintyddol fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Fodd bynnag, nododd ein hadolygwyr cymheiriaid amrywiaeth o welliannau yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn ystod yr arolygiadau. Y materion mwyaf cyffredin a godwyd oedd prosesau archwilio a phrofi awtoclafau anghyson, tystiolaeth nad oedd yr hyfforddiant gofynnol ar atal a rheoli heintiau ar gael, a'r angen i gynnal archwiliadau rheolaidd o drefniadau rheoli heintiau. Rhaid i ddeintyddfeydd fonitro ac asesu eu cydymffurfiaeth â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau arfer orau yn rheolaidd er mwyn cynnal safonau.

Er inni gael sicrwydd amserol wedyn, mae'n rhwystredig bod llawer o'r materion roedd angen ymdrin â nhw'n syth yr un peth â'r rhai a godwyd yn 2018-19. Mae'n bwysig bod deintyddfeydd a byrddau iechyd yn sicrhau bod unrhyw beth a ddysgir yn sgil canfyddiadau ac adroddiadau ein harolygiadau yn cael ei roi ar waith mewn ffordd gadarn a'i rannu'n effeithiol.

Hefyd, rhaid rhoi trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith i fonitro rheoliadau perthnasol a safonau proffesiynol, a sicrhau y cydymffurfir â nhw.

Canfyddiadau

Gwnaethom arolygu deintyddfeydd ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, heblaw am Bowys, ac roedd y canfyddiadau'n dda ar y cyfan. Roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd yn amlwg eu bod yn gweithio'n galed, ac yn ymrwymedig i sicrhau bod y cleifion yn cael gwasanaeth o ansawdd da o dan eu gofal.

Roedd sylwadau'r cleifion yn ystod ein harolygiadau bron bob amser yn gadarnhaol, a nodwyd bod gan y rhan fwyaf o'r deintyddfeydd bellach brosesau sefydledig ar waith i ymgysylltu â'r cleifion i gael adborth ar y gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, cynghorwn ddeintyddfeydd yn rheolaidd i arddangos canlyniadau holiaduron neu arolygon a hysbysu cleifion o'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'w hadborth er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i ddeall sut mae eu barn wedi llywio'r gwasanaeth a ddarperir.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r deintyddfeydd gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) cyfarpar deintyddol fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Fodd bynnag, nododd ein hadolygwyr cymheiriaid amrywiaeth o welliannau yn ystod yr arolygiadau, ac mae angen i'r deintyddfeydd sicrhau eu bod yn monitro ac yn asesu eu cydymffurfiaeth â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau arfer orau yn rheolaidd.

Canfyddiaddau Arolygiadau

Mae'r trefniadau a'r prosesau sydd ar waith i hybu a sicrhau lles a diogelwch y staff, y plant a'r oedolion yn gadarn, a nodwyd arferion da yn y maes hwn yn rheolaidd. Mae sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan Weithdrefnau Diogelu 2019 newydd Cymru, ac yn eu deall, yn faes a ystyrir gan ein harolygwyr yn y dyfodol.

"Roedd y staff yn garedig ac yn ofalgar iawn. Mae'r staff hefyd yn gyfeillgar iawn ac yn cynnig y cyngor gorau i ddiogelu fy neintgig a'm dannedd bob amser. Practis deintyddol gwych ar y cyfan." – Claf ym mwrdd iechyd Bae Abertawe

Roedd cofnodion cleifion yn amrywio o ran ansawdd. Roedd rhai o'r deintyddfeydd yn cadw cofnodion cleifion ardderchog a oedd yn glir, yn ddealladwy ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am drafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn ag opsiynau triniaeth, costau, risgiau, buddiannau a sut y gofynnwyd am gydsyniad cleifion. Fodd bynnag, safon wael o ran cadw cofnodion oedd y mater a godwyd fwyaf mewn Llythyrau Sicrwydd Uniongyrchol a hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Mae'n hanfodol bod deintyddfeydd yn defnyddio archwiliadau ac adolygiadau cymheiriaid i helpu i sicrhau bod cofnodion cleifion yn gywir ac yn gynhwysfawr.

Ar y cyfan roedd y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau drwy drefniadau rheoli a llywodraethu da, a gallent achub ar y cyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol parhaus priodol er mwyn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Bydd ein harolygwyr yn parhau i ddisgwyl i weithwyr deintyddol proffesiynol allu dangos eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau proffesiynol eu hunain.

Un o'r materion mwyaf arwyddocaol a gododd yn ein harolygiadau oedd y ffaith nad oedd trefniadau addas ar waith i ddiogelu cleifion a staff mewn argyfwng meddygol. Rhaid i ddeintyddfeydd sicrhau bod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru ar gael yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru, a bod archwiliadau wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal bob wythnos i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

"Yn fy marn i, hwn yw'r practis deintyddol gorau rwyf erioed wedi ei ddefnyddio. Allwn i ddim meddwl am unrhyw ffyrdd o wella'r gwasanaeth." – Claf ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr



Canfyddiaddau Arolygiadau

Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Yn 2019-20 cynhaliodd AGIC 13 o arolygiadau o ysbytai'r GIG, gan gynnwys uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), uned diogelwch canolig, gwasanaeth anableddau dysgu, Uned Gofal Dwys Seiciatrig (PICU) a gwasanaethau gofal i'r henoed. Arolygom tri thimau iechyd meddwl cymunedol mewn rhannau gwahanol o Gymru.

O ran arolygiadau gofal iechyd annibynnol, gwnaethom gynnal 15 o ymweliadau, gan gynnwys un ysbyty anableddau dysgu, unedau diogelwch canolig ac uned CAMHS. Ymwelwyd â'r un uned CAMHS ddwywaith ac ymwelwyd â'r un darparwr annibynnol ddwywaith. Fel rhan o'r ymweliadau hyn mae AGIC yn parhau i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gan gynnwys Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Canfyddiadau

Nododd AGIC sawl maes cadarnhaol yn ystod ei gwaith. Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a gwelwyd gwaith tîm da gyda staff ymroddedig a llawn cymhelliant. Hefyd roedd y cleifion yn cael amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau, ac roedd rhai enghreifftiau da o gynlluniau gofal a thriniaeth.

Mewn ambell achos roedd yn amlwg bod y Byrddau Iechyd a'r Darparwyr Annibynnol wedi cyflwyno sawl newid yn dilyn arolygiadau blaenorol, ac wedi rhoi modelau gofal lleiaf cyfyngol ar waith. Hefyd gwelsom dystiolaeth o rai trefniadau llywodraethu effeithiol a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar y gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Fodd bynnag, gwnaeth AGIC nifer sylweddol o argymhellion i fyrddau iechyd unigol, ynghyd â nodi gofynion gwella ar gyfer darparwyr gofal annibynnol cofrestredig. Gwnaethom barhau i nodi amrywiaeth o fethiannau wrth gynnal a chadw ac adnewyddu wardiau ac, mewn rhai achosion, roedd hyn yn cael effaith andwyol ar ofal, preifatrwydd, urddas a diogelwch y cleifion. Roedd hen gynllun rhai amgylcheddau clinigol hefyd yn cael effaith ar breifatrwydd ac urddas y cleifion.

Canfyddiadau Arolygiadau

Gwelsom amrywiaeth o sgyrsiau yn digwydd a oedd yn amrywio'n sylweddol rhwng y staff, a rhwng y staff a'r cleifion, ac yn anffodus nid oedd rhai yn briodol. Cafwyd un enghraifft lle roedd aelod presennol o'r staff yn cyflwyno'r ysbyty i gyflogai newydd, lle dywedodd y byddai'r cleifion yn y carchar oni bai am y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ymhlith y problemau mawr eraill a nodwyd roedd y canlynol: morâl gwael ymhlith y staff nyrsio a gofal, problemau yn monitro iechyd corfforol, a systemau larwm personol annigonol wrth alw staff o wardiau eraill.

Roedd ansawdd y cynlluniau gofal yn amrywio'n sylweddol. Mewn rhai achosion ni allem ddod o hyd i gynllun gofal i fynd i'r afael â risgiau sylweddol i'r claf a nodwyd; roedd hyn yn destun pryder mawr o ran diogelu cleifion agored i niwed. Hefyd, ni roddwyd hyfforddiant mewn sawl maes allweddol i'r staff, gan gynnwys y canlynol: y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, rheoli risg, arsylwi ar y cleifion, anhwylderau bwyta, anawsterau dysgu gan gynnwys awtistiaeth ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), ac amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol. Hefyd nid oedd y Byrddau Iechyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o arolygiadau.

Yn ystod y flwyddyn nodwyd unwaith eto broblemau sylweddol mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau mewn ffordd effeithiol. Ymhlith y problemau roedd y canlynol:

- gwallau cyfrif stoc
- llofnodion tystion ar goll yn y llyfr Cyffuriau a Reolir
- rhesymau dros roi meddyginiaeth PRN (pro re nata / yn ôl y gofyn) ddim yn cael eu cofnodi bob amser

- hen wybodaeth ar ddyddiadau pigiadau depo
- rhwymynnau a ddifrodwyd gan ddŵr
- oergelloedd a droriau lle cadwyd meddyginiaeth ddim yn cael eu cloi
- diffyg system gadarn gyda'r fferyllfa ar gyfer archebu a danfon meddyginiaeth frys
- diffyg proses i sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â thymereddau anfoddhaol ar gyfer oergelloedd meddyginiaeth ar unwaith
- diffyg manylion cleifion ar Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth
- trefniadau annigonol ar waith i ddychwelyd neu waredu meddyginiaeth nad oes ei hangen yn brydlon
- meddyginiaeth a ragnodir ddim yn cael ei hawdurdodi gan y dystysgrif cydsynio i driniaeth gyfatebol
- cypyrddau cyffuriau a reolir ddim yn cael eu defnyddio i storio eitemau amhriodol.

Hefyd, nid oedd polisïau a oedd yn berthnasol i ddefnyddio ystafelloedd meddyginiaeth ac ystafelloedd clinig bob amser yn gyfredol ac ni allai'r staff gael gafael arnynt bob amser.

Rhan allweddol o'r ymweliadau iechyd meddwl y mae AGIC yn eu cynnal yw cyflawni ei chyfrifoldebau i fonitro Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru sydd â dyletswyddau penodol y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni o dan y gyfraith. Mae AGIC yn cyhoeddi adroddiad manylach ar wahân ar ganfyddiadau'r ymweliadau hyn, sy'n cynnwys adran ar y ffordd y caiff y Ddeddf ei gweithredu. Mae'r adroddiad yn ystyried sut mae byrddau iechyd unigol a darparwyr cofrestredig annibynnol yn cyflawni eu dyletswyddau fel bod y Ddeddf yn cael ei gweinyddu'n gyfreithlon ac yn briodol ledled Cymru.

Fel rhan o'n rôl i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl gwnaethom barhau i nodi llawer o arferion da wrth weithredu a dogfennu'r Ddeddf ac roedd yn amlwg bod lefel dda o lywodraethu ac archwilio ar waith. Yn y rhan helaeth o achosion, roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, ac roedd cofnodion cynhwysfawr ar gyfer gweinyddu'r Ddeddf.

Roedd cofnodion y cleifion yn nodi eu bod wedi cael eu hysbysu am eu hawliau yn unol ag Adran 132 o'r Ddeddf. Dangosodd cofnodion fod apeliadau yn erbyn cadw cleifion wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni gofynnol a rhoddwyd meddyginiaeth i'r cleifion yn unol ag Adran 58 o'r Ddeddf. O ran Cydsynio i Driniaeth, roedd tystysgrifau triniaeth yn cael eu cadw gyda'r Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth gyfatebol. Roedd hyn yn golygu bod y staff a oedd yn rhoi'r feddyginiaeth yn gallu cyfeirio at y dystysgrif er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth Adran 58 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Canfyddiaddau Arolygiadau

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai problemau wrth weinyddu'r Ddeddf gan gynnwys:

- Dylai gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ystyried gwella'r lefelau o gyfathrebu â thimau allanol, er enghraifft er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl a gwrandawiadau rheolwyr yn unol â'r amserlenni a ganiateir gan y Ddeddf
- Mae angen gwella'r broses dderbyn yn sylweddol, yn enwedig o ran priodoldeb cadw cleifion - nid oedd y papurau i gadw cleifion yn yr ysbyty wedi'u cwblhau'n gywir i gyd
- Mewn un enghraifft, nid oedd ffurflen CO2[5] wedi cael ei chwblhau ar gyfer un o'r cleifion ar ôl iddo gael ei drosglwyddo i'r ysbyty. Roedd hyn yn golygu nad oedd tystiolaeth i gadarnhau bod y claf wedi cydsynio i gael ei drosglwyddo nac i'r driniaeth a gafodd yn ehangach
- Mewn ymweliad arall, pan gafodd pob set o ddogfennau statudol ei hadolygu, nid oedd cofnod o asesiad clinigydd cyfrifol y claf o alluedd y claf i gydsynio i driniaeth. Hefyd, nid oedd cofnod i ddangos bod triniaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Mewn un enghraifft, roedd tystysgrif cydsynio i driniaeth un claf yn fwy na thair blwydd oed ac nid oedd tystiolaeth i ddangos ei bod wedi cael ei hadolygu
- Mewn ambell achos, nid oedd arwydd clir wedi'i osod ar dystysgrifau cydsynio i driniaeth nad oeddent yn awdurdodi triniaeth mwyach er mwyn dangos i'r staff nad oeddent yn ddilys mwyach
- Nid oedd arwydd clir wedi'i osod ar ffurflenni awdurdodi Absenoldeb Adran 17 nad oeddent yn awdurdodi absenoldeb mwyach er mwyn dangos i'r staff nad oeddent yn ddilys mwyach
- Staff annigonol yn yr adran Deddf Iechyd Meddwl
- Diffyg papurau cadw yng nghofnodion cyfredol cleifion.



[5] Mae ffurflen CO2 yn dynodi bod y claf wedi cydsynio i'r cynllun triniaeth

Canfyddiaddau Arolygiadau

Gofal Iechyd Annibynnol

Mae ein harolygiadau o leoliadau gofal iechyd annibynnol, heblaw iechyd meddwl, yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a chadarnhau sut mae gwasanaethau'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Anelwn at arolygu'r gwasanaethau hyn bob tair blynedd o leiaf, ond gallwn gynnal ymweliadau mwy rheolaidd os oes angen o ganlyniad i wybodaeth a ddaw i law neu newid gwasanaeth.

Canfyddiadau

Ysbytai Annibynnol

Cafwyd canfyddiadau cadarnhaol yn dilyn ein harolygiadau o saith ysbyty annibynnol eleni ac ni nodwyd unrhyw faterion o ran diogelwch cleifion lle roedd angen gweithredu ar unwaith. O ganlyniad ni fu angen cyflwyno unrhyw hysbysiadau diffyg cydymffurfio.

Roedd systemau rheolaeth ac arweinyddiaeth cryf a gweladwy ar waith yn ein holl arolygiadau, ac mae'n parhau i fod yn faes lle prin y gwneir argymhellion. Ar y cyfan, gwelsom brosesau a gweithdrefnau clir i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r profiad a'r gwasanaeth roeddent wedi'u cael a chwblhawyd cofnodion y cleifion i safon uchel yn gyffredinol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai problemau o ran dogfennaeth ac asesu risgiau. Roedd enghreifftiau lle roedd angen gwella dogfennaeth cyn asesu drwy ei gwneud yn fanylach, gan gynnwys cofnodi gwybyddiaeth, diogelu ac unrhyw gredoau crefyddol. Roedd angen i rai asesiadau risg fod yn fwy cadarn ac roedd angen ychwanegu manylion penodol am gleifion atynt o bryd i'w gilydd. Rhaid cwblhau a / neu adolygu pob asesiad risg ar adeg derbyn claf, a'i storio gyda nodiadau'r claf.

Atgoffwyd lleoliadau hefyd i sicrhau bod eu staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol a bod cofnodion cyfredol o hyn yn cael eu cadw gan y lleoliad.

Er bod systemau atal a rheoli heintiau yn dda ar y cyfan, roedd yn faes lle gwnaethom amrywiaeth o argymhellion. Yn eu plith roedd cynnal a chadw amgylcheddau'n briodol fel bod modd eu glanhau'n effeithiol, er enghraifft trwsio arwynebau sydd â darnau bach ar goll, sy'n rhydu neu sy'n fandyllog. Mae angen ystyried niferoedd a lleoliadau sinciau golchi dwylo a biniau gwastraff clinigol, ac atgoffa'r staff i ddilyn y canllawiau golchi dwylo, a rhaid i leoliadau newid neu ddefnyddio llenni untro os oes angen.

"Staff gofalgar a pharod eu cymwynas sy'n darparu gofal gwych" - Claf Ysbyty Annibynnol

Canfyddiaddau Arolygiadau

Clinigau Annibynnol a gwasanaethau sy'n darparu 'technegau rhagnodedig'

Sefydliadau lle caiff gwasanaethau eu darparu gan ymarferwyr meddygol preifat, heb fod gwelyau dros nos yno, yw clinigau annibynnol.

Gwasanaethau, megis IVF (ffrwythloni in vitro), terfynu beichiogrwydd, ac enwaedu, yw 'technegau rhagnodedig' a ddarperir gan leoliadau sydd wedi cofrestru â ni fel ysbyty annibynnol. Mae hyn hefyd yn cynnwys ysbytai deintyddol sy'n darparu triniaeth o dan anaesthesia cyffredinol.

Gwnaethom gynnal saith arolygiad eleni a pharhawyd i weld lefelau uchel o foddhad cleifion ar gyfer clinigau annibynnol a gwasanaethau ledled Cymru. Roedd yn braf gweld na nodwyd unrhyw faterion o ran diogelwch cleifion lle roedd angen gweithredu ar unwaith ac, o ganlyniad, nid oedd angen inni gyflwyno unrhyw hysbysiadau diffyg cydymffurfio.

Ym mhob arolygiad clinigol, gwelsom amgylcheddau glân a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o achosion o dorri rheoliadau. Rhaid i ddarparwyr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal i lefel briodol a bod hyfforddiant staff gorfodol yn cael ei gwblhau gyda chofnodion cyfredol. Hefyd, rhaid i'r unigolyn cyfrifol gynnal ymweliadau bob chwe mis o leiaf, gan lunio adroddiad ar ymddygiad y gwasanaeth yn dilyn yr ymweliad.

Ymhlith yr argymhellion ar gyfer gwella roedd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon uchel, yn enwedig trefniadaeth cofnodion, pa mor hawdd ydynt i'w deall, a gweithdrefnau gwrthlofnodi; gwella argaeledd deunydd hybu iechyd; a rhaid arddangos y canlyniadau ac unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn adborth cleifion lle gallant eu gweld.

Nodwyd y defnydd o hebryngwyr yn fater unwaith eto. Rhaid i ddarparwyr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i sicrhau bod cynnig hebryngwyr a defnyddio hebryngwyr yn cael eu cofnodi.

O ran gwasanaethau sy'n darparu technegau rhagnodedig, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol ym mhob arolygiad, ac roedd y lleoliadau yn lân ac yn daclus, gyda threfniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi achos o dorri rheoliadau mewn un lleoliad lle na chadwyd cofnodion y cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol.



Canfyddiaddau Arolygiadau

Laserau Dosbarth 3b/4 a Goleuni Pwls Dwys (IPL)

Eleni gwnaethom gynnal 27 o arolygiadau o'r lleoliadau hyn o gymharu â 15 y flwyddyn flaenorol. Ar y cyfan nodwyd bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol gan y staff a oedd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w trin.

Yn gyffredinol, cawsom y sicrwydd canlynol:

- Cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth am fod y cleifion yn cael y wybodaeth gywir am eu triniaeth mewn ffyrdd y gallent eu deall
- Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda i ddangos bod y cleifion yn cael gofal unigoledig
- Roedd y peiriannau laser ac IPL a oedd yn cael eu defnyddio gan y lleoliadau i ddarparu triniaethau wedi cael eu gwasanaethu a'u calibradu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn ôl y disgwyl.

Nodwyd bod mwy o leoliadau yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o gasglu adborth gan y cleifion.

Rhaid i'r lleoliadau hefyd sicrhau eu bod yn casglu adborth y cleifion hynny sydd leiaf tebygol o roi adborth ar-lein.

Nodwyd rhai gwelliannau cyffredin yn unol â chanllawiau proffesiynol a safonau roedd angen i'r lleoliadau eu gwneud. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhagofalon tân gwell, megis profion larwm tân wedi'u dogfennu bob wythnos a chwblhau asesiadau risg tân rheolaidd
- Archwilio pecynnau cymorth cyntaf yn amlach er mwyn sicrhau bod y dyddiadau ar y cynnwys yn iawn a bod y cynnwys yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Dogfennu amserlenni glanhau i ddangos bod trefniadau rheoli heintiau yn cael eu dilyn
- Sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant diogelu priodol i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed
- Cael ymarferydd meddygol arbenigol i lunio protocolau cyfredol ar gyfer triniaethau meddygol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel.



Canfyddiaddau Arolygiadau

Er bod nifer yr hysbysiadau diffyg cydymffurfio a gyflwynwyd gennym eleni yn fach, nodwyd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, fod angen i leoliadau fod yn fwy rhagweithiol o hyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'u hamodau cofrestru ag AGIC. Yn arbennig:

- Rhaid i ddogfennau allweddol fel y Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a chael eu hadolygu'n rheolaidd
- Rhaid i bolisïau fod yn fanwl ac amlinellu'r trefniadau perthnasol sydd ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Rhaid cynnal gwiriadau cefndir ar aelodau o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y lleoliad er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion rhag cael eu cam-drin
- Rhaid i'r rheolau lleol ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser neu IPL yn ddiogel gael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf gan arbenigwr laser neu IPL perthnasol.

Gorfodi

Rydym wedi parhau i weithredu lle rydym wedi cael gwybod am ddarparwyr anghofrestredig, gan gymryd y camau angenrheidiol i weld a oes angen iddynt gofrestru, a'u tywys drwy'r broses honno. Lle rydym wedi nodi darparwyr nad ydynt wedi cydweithredu, rydym wedi cymryd camau cryfach ac, yn achos un darparwr penodol, gwnaethom ddechrau ymchwiliad troseddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd 14 o ddarparwyr nad oeddent wedi cofrestru o bosibl, ac mae naw wrthi'n cofrestru, gyda'r gweddill ar gamau gwahanol o'n proses orfodi.

Rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio ein proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder mewn perthynas â gwasanaethau cofrestredig. Dilynir y broses hon mewn achosion lle rydym wedi nodi pryderon sylweddol am wasanaethau a all effeithio ar ddiogelwch y cleifion, fel rheol yn deillio o ymweliad arolygu ac unrhyw faterion diffyg cydymffurfio dilynol. Rhoddir y dynodiad ffurfiol hwn i wasanaeth o ganlyniad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd y statws hwn i bedwar gwasanaeth ac fe'u rheolwyd yn unol â'n proses orfodi, gan gymryd camau gweithredu sifil, megis gosod amodau cofrestru, mewn ymateb.



Canfyddiaddau Arolygiadau

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth yn erbyn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Bwriedir i'r rheoliadau amddiffyn pobl rhag peryglon sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd ïoneiddio. Mae ein gwaith arolygu yn edrych i weld a yw gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ynghyd â ph'un a gaiff gofal a thriniaeth eu darparu yn unol â Safonau Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2019-20 cwblhaodd AGIC dri arolygiad IR(ME)R, sy'n is nag arfer oherwydd anawsterau gweithredol ddiwedd mis Chwefror a dechrau pandemig y Coronafeirws ym mis Mawrth 2020. O dan yr amgylchiadau hyn hefyd, dim ond dau o'r tri math o gysylltiad meddygol a ystyriwyd (radiotherapi a delweddu diagnostig) - nid edrychwyd ar feddygaeth niwclear eleni.

Canfyddiadau

Yn ystod ein harolygiadau gwnaethom ofyn i'r cleifion raddio eu profiad; ar y cyfan dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i gael. Yn ein harolygiad o'r adran radiotherapi yng Nghanolfan Ganser Felindre roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan wrth iddynt ganmol y staff yno.

Roedd cydymffurfiaeth gyffredinol â'r rheoliadau yn dda, gyda pholisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan IR(MER)2017 ar gael ac yn gyfredol. Dangosodd trafodaethau â'r staff fod ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn unol ag IR(ME)R hefyd yn dda, ar y cyfan. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld bod uwch-aelodau o'r staff yn croesawu ein harolygiad ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'n canfyddiadau.

Roedd hanner yr argymhellion ar gyfer gwella a wnaed gennym yn ymwneud â phrofiadau'r cleifion. Nodwyd y gallai'r gwasanaethau y gwnaethom ymweld â nhw wneud mwy i roi gwell gwybodaeth i'r cleifion am y meysydd canlynol:

- Argaeledd gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol
- Amseroedd aros
- Â phwy y dylid cysylltu os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau yn dilyn eu harchwiliad / triniaeth
- Sut i godi pryder am y gwasanaeth a gafwyd a sut y gall y Cyngor Iechyd Cymuned eu helpu i wneud hynny.



[6] Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg

Canfyddiaddau Arolygiadau

Roedd yr argymhellion a wnaed o ran gofal diogel ac arweinyddiaeth / rheolaeth yn benodol i'r safle a arolygwyd gennym, heb fod unrhyw themâu yn codi. Yr unig eithriad oedd yr angen i sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau pob cysylltiad. Mae hyn yn broblem benodol gyda gwasanaethau y tu allan i oriau a ddarperir drwy drefniant contract Cymru gyfan allanol. Mae'r contract hwn yn darparu gwasanaeth adroddiadau radioleg sy'n cynnwys, mewn rhai achosion, gyfiawnhad y tu allan i oriau o archwiliadau penodedig a gwerthusiadau clinigol cysylltiedig. Mae hwn yn fater sy'n berthnasol i Gymru gyfan felly mae angen i bob bwrdd iechyd sicrhau yr eir i'r afael ag ef.

Er nad oedd unrhyw themâu yn deillio o'r argymhellion eu hunain, roedd thema glir yn y camau gweithredu a gynigiwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i'n hargymhellion. Yr ymateb cyffredin oedd gwneud mwy o waith archwilio a llywodraethu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu nodi'r materion hyn eu hunain, heb orfod dibynnu ar arolygiad gan y rheoleiddiwr i nodi meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Nodwyd yr angen i wella'r broses lywodraethu a'r broses o oruchwylio cydymffurfiaeth ag IR(ME)R fel mater allweddol yn ein rhaglen arolygu yn 2018-19. Byddem yn annog pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth i barhau i ganolbwyntio ar hyn, a dysgu o'i gilydd.

Ar gais Llywodraeth y DU, cynhaliodd tîm rhyngwladol o uwch-arbenigwyr diogelwch adolygiad cymheiriaid o'r Gwasanaeth Adolygiadau Rheoleiddiol Integredig (IRRS) rhwng 14 a 25 Hydref 2019. Diben yr adolygiad hwn oedd gwerthuso fframwaith rheoleiddio'r DU ar gyfer diogelwch niwclear ac ymbelydredd yn erbyn safonau diogelwch IAEA. Hwn oedd y pedwerydd adolygiad o IRRS i'w gynnal yn y DU ers i raglen IRRS ddechrau yn 2006, a'r adolygiad llawn cyntaf i edrych ar ddiogelwch niwclear ac ymbelydredd. Fel rhan o'r elfen diogelwch ymbelydredd, ystyriwyd y defnydd o ymbelydredd ïoneiddio am resymau meddygol am y tro cyntaf.

Cymerodd AGIC ran lawn yn yr adolygiad hwn, ar y cam hunanasesu cychwynnol ac wrth gael ei chyfweld gan y tîm adolygu yn ystod yr adolygiad ei hun. Ar y cyfan, roedd y tîm adolygu yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ag IR(ME)R ac ni wnaeth unrhyw argymhellion ynghylch ein methodoleg arolygu. Fodd bynnag, gwnaeth argymell y dylai pob reoleiddiwr IR(ME)R yn y DU gynnal arolygiadau rheolaidd. Bydd hyn yn golygu cynnal mwy o arolygiadau bob blwyddyn wrth i ni geisio cyflawni'r rhaglen arolygu ganlynol:

- Caiff gwasanaethau radiotherapi eu harolygu bob pedair blynedd
- Caiff cyfleusterau meddygaeth niwclear eu harolygu bob chwe blynedd
- Caiff ysbytai â gwasanaethau delweddu diagnostig eu harolygu bob 10 mlynedd.

Ar y cyfan, roedd adolygiad IRRS yn brofiad dysgu gwerthfawr i reoleiddwyr y DU a wnaeth ein galluogi i nodi gwelliannau sydd eu hangen i'n polisïau a'n gweithdrefnau ni ein hunain. Mae hefyd wedi creu cydberthynas llawer agosach rhwng pedwar rheoleiddiwr y DU ac wedi creu dull o rannu gwersi ac ymarfer ledled y DU.



Canfyddiaddau Arolygiadau

Gofal Iechyd Troseddwyr

Mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ymchwilio i bob marwolaeth sy'n digwydd mewn carchar. Mae AGIC yn cyfrannu at yr ymchwiliadau hyn drwy gynnal adolygiad clinigol o bob marwolaeth mewn carchar neu Sefydliad Cymeradwy yng Nghymru. Caiff y trefniant hwn ei ddiffinio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Ombwdsmon ac AGIC.

Mae ein hadolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa yn archwilio ac yn gwerthuso systemau, prosesau ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir i garcharorion yn ystod eu hamser mewn carchar neu Sefydliad Cymeradwy, a hynny mewn ffordd feirniadol.

Yn 2019-20, cafodd AGIC ei chomisiynu i gynnal 14 o adolygiadau o farwolaethau clinigol yn y ddalfa ar ran yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth. Roedd hanner y rhain yn CEM Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. CEM Abertawe oedd â'r nifer lleiaf o farwolaethau yn y ddalfa, gyda dim ond un achos.

Unwaith eto eleni, daeth ein hadolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa i'r casgliad cyffredinol bod y gofal a gaiff carcharorion yng Nghymru yn cyfateb i'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig yn y gymuned. Ym mhob un o'n hadolygiadau, gwnaethom nodi gwelliannau ac arferion da.

Nodwyd bod atgyfeiriadau at arbenigeddau yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac effeithlon ar y cyfan. Hefyd, rheolwyd meddyginiaeth y carcharorion a chynhaliwyd adolygiadau rheolaidd ohoni mewn modd boddhaol.

Nodwyd bod angen gwneud gwelliannau yn ein hadolygiadau hefyd. Er enghraifft, nodwyd bod angen gwella arferion archwilio clinigol. Dylai archwiliadau clinigol fod yn rhan annatod o reoli ansawdd gwasanaethau gofal iechyd carchardai, gan eu bod yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ac yn diogelu cleifion yn fwy.

Hefyd, nodwyd bod angen gwella gwasanaethau iechyd meddwl / dementia yn ein hadolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa. Argymhellwyd y dylai carcharorion â dementia gael gofal iechyd meddwl arbenigol lleol mewn modd amserol.

Arolygiadau o Garchardai

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n cynnal arolygiadau o garchardai yng Nghymru. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng yr Arolygiaeth ac AGIC, a chawn ein gwahodd i fynychu ei harolygiadau o garchardai yng Nghymru. Mae'r dulliau hyn o weithredu yn ein galluogi i rannu'r hyn a ddysgwn o adolygiadau clinigol o farwolaethau yn y ddalfa a hefyd ystyried y ffordd y caiff gofal iechyd carchardai ei lywodraethu.

Yn ystod 2019-20, gwnaethom fynychu dau o arolygiadau'r Arolygiaeth yn CEM Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr arolygiadau ar gyfer y boblogaeth o garcharorion sy'n oedolion, a'r sefydliad troseddwyr ifanc a leolir yn CEM Parc.



Canfyddiaddau Arolygiadau

Nododd yr adroddiadau arolygu yr arferion da canlynol:

- Cynhaliwyd prosesau sgrinio iechyd cychwynnol yn brydlon ac yn effeithiol wrth dderbyn, gan atgyfeirio'n briodol at wasanaethau eraill pan fo angen. Cynigiwyd gwasanaeth sgrinio eilaidd yn rheolaidd, ac roedd y cyfraddau derbyn a chofnodi wedi gwella dros y 12 mis diwethaf
- Roedd y carchar yn hybu iechyd mewn modd cydlynol. Roedd y tîm gofal iechyd yn defnyddio calendr o ddigwyddiadau i adlewyrchu rhaglenni cenedlaethol, ac roedd gwybodaeth hybu iechyd i'w gweld ym mhob rhan o'r carchar
- Roedd uned byw â chymorth arbenigol ar gyfer y carcharorion hynny ag anawsterau dysgu, a oedd yn darparu lefel ardderchog o ofal a chymorth
- Roedd presenoldeb dwy nyrs ddynodedig ar yr uned i blant yn sicrhau parhad gofal effeithiol ac yn helpu i feithrin cydberthnasau gofalgar y gellid ymddiried ynddynt â'r plant.

Nododd yr arolygiad hefyd rai meysydd i'w gwella yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Roedd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel ac nid oedd y gwasanaethau a oedd ar gael yn bodloni'r galw. Er bod y cymorth a oedd ar gael ar gyfer problemau ysgafn i gymedrol wedi gwella, nid oedd yr amrywiaeth o ymyriadau arbenigol na chymorth i garcharorion ag anghenion mwy cymhleth yn ddigonol, ac roedd gormod o garcharorion yn aros gormod o amser am wasanaethau a fodolai eisoes
- Dim ond unwaith yr wythnos y gallai carcharorion agored i niwed mewn un uned weld deintydd, a allai fod wedi arwain at oedi cyn cael gofal brys
- Nid oedd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn darparu amrywiaeth addas o asesiadau, triniaethau nac ymyriadau ar gyfer plant Parc. Nid oedd ymyriadau seiliedig ar seicoleg ar gael mwyach, nid oedd therapydd lleferydd ac iaith, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o therapïau siarad strwythuredig, roedd eu hangen ar y boblogaeth yn amlwg.

Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi wrth adolygu'r gofal iechyd a ddarperir o fewn Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc. Mae'r adolygiadau manwl hyn hefyd yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau partner eraill gan gynnwys Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Ym mis Chwefror 2020 cymerodd AGIC ran mewn arolygiad o Wasanaethau Troseddwyr Ifanc Caerdydd, lle gwerthuswyd y gwasanaethau gofal iechyd a'r hyn a ddarperir i'r bobl ifanc.

Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad llawn ddiwedd mis Gorffennaf a bydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.



Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

BIP Aneurin Bevan

Yn gyffredinol, gwelsom fod y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol, ac yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'r gofal roeddent yn ei gael. Roeddem yn falch o weld tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol effeithiol yn yr arolygiadau, yn enwedig yn ystod ein harolygiadau o ysbytai.

Un o'r prif heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd, a gafodd ei chydnabod yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, yw rhannu gwersi rhwng gwasanaethau, a nodi materion tebyg yn ein harolygiadau. Er ei bod hi'n braf gweld llawer o enghreifftiau o arferion da, mae'n siomedig nad yw'n ymddangos eu bod yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith o fewn y bwrdd iechyd cyfan. Enghraifft o hyn yw ein harolygiadau Iechyd Meddwl, lle nodwyd bod y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei gweithredu'n dda yn yr Ysbyty Sirol, ond roedd yn cael ei gweithredu'n wael yn Ysbyty Cwrt Maindiff. Gwnaethom hefyd godi'r mater hwn mewn arolygiad tebyg ym mis Tachwedd 2018. Hefyd, rydym eisoes wedi codi pryderon am ansawdd y gwaith o gadw cofnodion mewn lleoliadau, ac roedd yn siomedig nodi bod nifer o welliannau yn ofynnol yn y maes hwn mewn nifer o wasanaethau.

Roedd canfyddiadau ein harolygiadau o feddygfeydd yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'r gofal roeddent yn ei gael, a gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd y meddygfeydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo hawliau'r bobl a sicrhau bod y gwasanaethau yn hygyrch i bob claf, ac roedd pob meddygfa yn cael ei rheoli'n dda. Fodd bynnag, bu angen cyflwyno dau lythyr Sicrwydd Uniongyrchol yn dilyn dau o'r arolygiadau hyn, gyda'r ddau yn ymwneud ag archwilio cyfarpar brys. Yn dilyn hyn cawsom sicrwydd digonol gan y bwrdd iechyd ynghylch y materion hyn.

Gwnaethom arolygu tri ysbyty fel rhan o'n Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth. Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y gofal roeddent yn ei gael. Roedd yn braf gweld prosesau da ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol, sy'n enghraifft dda o rannu arferion da rhwng safleoedd. Roedd Bydwragedd Arbenigol wedi'u penodi gan y tri ysbyty, a gwelsom dystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol da. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella prosesau atal a rheoli heintiau mewn dau arolygiad. Cyflwynwyd llythyr Sicrwydd Uniongyrchol yn dilyn un arolygiad a oedd yn ymwneud â diogelwch y babanod ar y ward; archwilio cyfarpar brys; a monitro tymereddau oergelloedd cyffuriau. Yn dilyn hyn cawsom sicrwydd digonol gan y bwrdd iechyd ynghylch y materion hyn.

BIP Aneurin Bevan

Gwnaethom arolygu dau o leoliadau Iechyd Meddwl y GIG yn 2019-20. Roedd yn braf gweld tystiolaeth o waith tîm da rhwng y staff a chlywed y cleifion yn siarad yn gadarnhaol am y gofal roeddent yn ei gael. Roedd pwyslais penodol ar ofal unigoledig, ac roedd cysylltiadau cryf rhwng y ddau leoliad a'r gymuned leol. Hefyd, roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Yn anffodus, roedd angen gwella'r ffordd roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar y tymheredd cywir, a oedd yn rhywbeth a nodwyd wrth arolygu un o'r ysbytai hefyd.

Gwnaethom arolygu 13 o ddeintyddfeydd yn 2019-20. Roedd yn braf nodi eu bod yn casglu barn y cleifion ac yn gweithredu arno, ac roedd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda. Fodd bynnag, yn achos dros hanner ein harolygiadau, nodwyd bod angen gwella safonau cadw cofnodion clinigol, sy'n arbennig o siomedig am fod y maes hwn wedi'i nodi'n thema roedd angen ei gwella yn Adroddiad Blynyddol 2018-19.

Byddwn yn olrhain cydymffurfiaeth â'n hargymhellion yn ystod 2020-21 er mwyn sicrhau bod y gwersi yn cael eu rhannu, ac y gweithredir ar yr argymhellion.

BIP Aneurin Bevan

Ysbytai

- ✓ Ar y cyfan nodwyd gofal diogel ac effeithiol
- ✓ Roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch
- ✓ Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn hapus â'r gofal a gawsant
- ✓ Tystiolaeth dda o waith tîm amlddisgyblaethol
- ✓ Lefelau da o breifatrwydd ar gyfer y cleifion ar y wardiau
- × Problemau o ran mesurau atal a rheoli heintiau
- × Archwilio cyfarpar brys
- × Cadw cofnodion
- × Rheoli meddyginiaethau

Iechyd meddwl

- ✓ Staff ymroddedig a llawn cymhelliant
- ✓ Y cleifion yn canmol y gofal
- ✓ Gwaith tîm da
- ✓ Gofal unigoledig da
- × Rheoli meddyginiaethau
- × Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- × Problemau o ran dysgu ar y cyd a chyflawni ymrwymiadau yn dilyn canlyniadau arolygiadau

Meddygfeydd

- ✓ Ar y cyfan nodwyd gofal diogel ac effeithiol
- ✓ Roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch
- ✓ Mynediad da i wybodaeth am y cleifion
- ✓ Meddygfeydd yn cael eu rheoli'n dda
- ✓ Cyfathrebu da rhwng y staff
- × Polisïau a gwybodaeth am hebryngwyr
- × Cofnodion hyfforddiant y staff
- × Cadw cofnodion
- × Archwilio cyfarpar dadebru brys

Deintyddfeydd

- ✓ Casglwyd adborth gan y cleifion yn rheolaidd, a gweithredwyd arno
- ✓ Ar y cyfan roedd y deintyddfeydd yn lân ac mewn cyflwr da
- ✓ Tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda
- × Dyfeisiau a chyfarpar meddygol
- × Storio gwastraff a'i gadw'n ddiogel
- × Safon cadw cofnodion clinigol

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

BIP Betsi Cadwaladr

Ar y cyfan, bu'r arolygiadau o'r bwrdd iechyd yn 2019-20 yn gadarnhaol. Nodwyd gofal unigoledig ac urddasol yn cael ei ddarparu gan y staff yn y lleoliadau a arolygwyd. Fodd bynnag, roedd yn bryderus bod rhai o'r materion a godwyd y flwyddyn flaenorol yn dal i fod yn amlwg.

Un o'r prif heriau a welwyd yn yr Adrannau Brys a arolygwyd oedd llif y cleifion i mewn i wasanaethau priodol yn yr ysbytai. Cafodd hyn effaith andwyol ar y gwaith o redeg yr adrannau a chyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer amseroedd aros.

Yn y chwe meddygfa a arolygwyd yn ystod 2019-20, roedd yn bryderus gweld cynifer o broblemau'n ymwneud â gofal diogel ac effeithiol a llywodraethu ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nododd y cleifion yn gyffredinol fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Cyflwynwyd dau hysbysiad diffyg cydymffurfio o ganlyniad i'r wyth arolygiad o ddeintyddfeydd a gynhaliwyd. Fodd bynnag, nid oedd angen nodi unrhyw welliannau ar gyfer dwy o'r deintyddfeydd yr ymwelwyd â nhw, a oedd yn braf i'w weld.

Roedd hefyd yn braf gweld tystiolaeth o ofal effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn a gwaith cynllunio cyfannol yn ein harolygiadau o ysbytai, lleoliadau iechyd meddwl a TIMC. Roedd hefyd yn galonogol gweld na fu angen cyflwyno llythyr Sicrwydd Uniongyrchol yn sgil unrhyw un o'r arolygiadau iechyd meddwl.

Roedd prosesau cynllunio a dogfennu gofal o safon dda yn yr arolygiadau o ysbytai, lleoliadau iechyd meddwl a TIMC, ond gwnaethom argymell bod angen cryfhau'r system ar gyfer dysgu gwersi o archwiliadau, pryderon a digwyddiadau. Roedd y canfyddiadau hyn hefyd yn amlwg yn yr arolygiadau a gynhaliwyd yn 2018-19.

Ar y cyfan, ym mhob arolygiad, roedd y staff yn gadarnhaol iawn am y meysydd roeddent yn gweithio ynddynt, ond roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn atgyfnerthu trefniadau hyfforddi a chadw staff.

Yn ystod 2019-20, gwnaethom arolygu holl unedau geni acíwt a chymunedol un bwrdd iechyd o fewn gwasanaethau mamolaeth. Roedd yn braf gweld gwelliannau o fewn yr arolygiadau mamolaeth acíwt ac roedd yn amlwg bod gwersi yn cael eu rhannu, ac roedd cyfathrebu gwych rhwng y gwasanaethau acíwt. Fodd bynnag, roedd yn bryderus nodi bod problemau'n ymwneud â'r tair safon gofal iechyd yn y tair uned geni gymunedol. Er gwaethaf y materion hyn, roedd yr adborth a gafwyd gan y menywod a oedd yn defnyddio'r unedau yn gadarnhaol iawn ynghylch eu gofal a'u profiadau.

Gan fod y bwrdd iechyd yn parhau i fod mewn mesurau arbennig, mae'n hanfodol parhau i wneud gwelliannau a rhannu argymhellion, a sicrhau na chollir momentwm.

BIP Betsi Cadwaladr

Ysbytai

- ✓ Tystiolaeth dda o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymgysylltu gan staff
- ✓ Gwelwyd gofal diogel ac effeithiol ym mhob arolygiad
- ✓ Roedd trefniadau da ar waith o fewn mamolaeth i roi cymorth profedigaeth a chymorth iechyd meddwl amenedigol i'r menywod a'u teuluoedd
- × Cydymffurfiaeth wael o ran atal a rheoli heintiau mewn rhai meysydd
- × Dysgu o archwiliadau, cwynion a digwyddiadau
- × Llywodraethu ac arweinyddiaeth gyffredinol o fewn yr unedau geni cymunedol

Iechyd meddwl

- ✓ Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch ymgysylltu'r staff a chynllunio a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- ✓ Prosesau archwilio, adrodd ac uwchgyfeirio clinigol da ym maes Gofal TIMC
- ✓ Trefniadau llywodraethu sefydledig sy'n darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- × Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion
- × Rheoli meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- × Asesu risgiau pwyntiau clymu
- × Hyfforddi, recriwtio a chadw staff

Meddygfeydd

- ✓ Cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch a'u cynnwys yn eu gofal
- ✓ Tystiolaeth dda o gadw cofnodion mewn ffordd gadarn
- ✓ Staff yn hapus yn eu gwaith ym mhob arolygiad
- × Angen gwella mesurau atal a rheoli heintiau
- × Angen adolygu cofnodion y staff er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei dogfennu'n glir, megis DBS, imiwneiddio a hyfforddiant
- × Caiff cyfarfodydd diogelu eu cynnal a'u dogfennu'n rheolaidd, a dysgir gwersi ohonynt

Deintyddfeydd

- ✓ Dulliau da ar gyfer casglu adborth y cleifion ac ymateb iddo
- ✓ Amrywiaeth addas o ddeunydd hybu iechyd a hylendid y geg
- ✓ Hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion
- × Ehangu'r defnydd o archwiliadau clinigol, yn enwedig rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthficrobaidd
- × Angen gwella mesurau atal a rheoli heintiau
- × Gosod biniau cyfarpar miniog ar y waliau

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

BIP Caerdydd a'r Fro

Ar y cyfan, roedd canfyddiadau ein harolygiadau o fewn y bwrdd iechyd yn gadarnhaol. Lle roedd angen gwella, mae pob bwrdd clinigol wedi ymateb mewn modd adeiladol, ac wedi ymgysylltu'n dda. Ym mhob arolygiad, bu rhyngweithio da iawn rhwng y staff a'r timau arolygu, a bu ymgysylltiad parhaus timau arwain y bwrdd iechyd yn gadarnhaol hefyd.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gadarnhaol iawn am y gofal, y driniaeth a'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd. Hefyd, rhoddodd y staff adborth cadarnhaol am y gefnogaeth a'r arweinyddiaeth a ddarparwyd gan uwch-reolwyr adrannol a bwrdd iechyd. Roedd arferion gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol ar waith, a nodwyd eu bod yn gadarnhaol ac yn alluogol.

Gwnaethom ymweld â phedwar ysbyty ac arolygu saith adran, ac arolygwyd gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru fel rhan o'n Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth. Ar y cyfan, gwelsom enghreifftiau o ryngweithio proffesiynol a thrugarog rhwng y staff a'r cleifion. Nododd pob arolygiad fod urddas a phreifatrwydd y cleifion yn cael eu cynnal gan y staff, ac roedd y staff yn ceisio darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae'r bwrdd iechyd yn ystyried yn gyson fod craffu allanol a mewnol yn ffordd gadarnhaol o ddysgu a gwella'n barhaus. Bu'n amlwg bod y bwrdd iechyd wedi rhannu gwersi yn y rhan fwyaf o feysydd. Roedd yn braf nodi i arolygiad dilynol AGIC o'r Uned Asesu a'r Uned Frys ddangos gwelliant sylweddol mewn sawl maes yn dilyn y materion a godwyd yn arolygiad y llynedd.

Ni fu modd inni gynnal ein harolygiad TIMC yn ardal gogledd-orllewin Caerdydd, a hynny oherwydd pandemig Covid-19. Datgelodd ein harolygiad o uned iechyd meddwl Hafan y Coed fod nifer o broblemau a oedd yn cael effaith negyddol ar brofiad y cleifion, ac a all effeithio ar eu diogelwch. Nodwyd nifer o'r materion a godwyd gan AGIC yn ystod arolygiad 2019 eto eleni.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrio ar ei asesiad ei hun o'r trefniadau a oedd ar waith yn dilyn arolygiad y llynedd o Hafan y Coed, a pham na chymerwyd mwy o gamau mewn perthynas â'r cynllun gweithredu, gan arwain at godi'r un materion unwaith eto eleni.

Ar y cyfan, yn ein tri arolygiad o feddygfeydd, gwelsom fod y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd safon dda o gadw cofnodion ar y cyfan, ac roedd pob meddygfa yn cael ei harwain yn dda, gyda rhyngweithio tîm a staff da. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella, yn enwedig o ran diweddaru polisïau a gweithdrefnau, ac roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn broblem mewn rhai meddygfeydd.

Gwnaethom gynnal 15 o arolygiadau o ddeintyddfeydd eleni, a nodwyd bod y staff yn canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, ac ar y cyfan roedd y cleifion yn hapus â'r gofal roeddent yn ei gael. Roedd prosesau rheoli da ar waith yn gyffredinol o fewn y gwasanaethau. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau o ran y ddogfennaeth yng nghofnodion y cleifion, gweithgarwch archwilio clinigol, ac o ran archwilio, storio a lleoli cyfarpar brys.

BIP Caerdydd a'r Fro

Ysbytai

- ✓ Ar y cyfan roedd pob arolygiad yn gadarnhaol, a nodwyd gofal diogel ac effeithiol
- ✓ Nodwyd profiadau cadarnhaol gan y cleifion ym mhob arolygiad
- ✓ Roedd tystiolaeth dda o waith amlddisgyblaethol ym mhob arolygiad
- ✓ Roedd arweinyddiaeth a rheolaeth dda ym mhob arolygiad
- × Archwiliwyd cyfarpar dadebru mewn dwy adran
- × Roedd cyfleusterau diheintio dwylo ar gael ym mhob ardal glinigol
- × Cynhaliwyd adolygiadau datblygu blynyddol personol yn amserol
- × Cydymffurfiwyd â hyfforddiant gorfodol yn amserol

Iechyd meddwl

- ✓ Roedd timau o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o'r safon uchaf
- ✓ Roedd rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch
- ✓ Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda
- ✓ Roedd arweinyddiaeth dda ar y ddwy ward, gydag adborth cadarnhaol gan y staff a'r cleifion
- × Nid oedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth na statws cyfreithiol y cleifion bob amser ar gael yn eu siartiau cyffuriau
- × Roedd y cleifion yn aml yn 'cysgu allan' o'u ward ddynodedig, ar wardiau eraill
- × Cydymffurfiaeth wael o ran hyfforddiant staff
- × Mynediad priodol i ardd Hafan y Coed i'r cleifion

Meddygfeydd

- ✓ Ar y cyfan roedd pob arolygiad yn gadarnhaol, a nodwyd gofal diogel ac effeithiol
- ✓ Adborth da gan y cleifion
- ✓ Safle glân ac mewn cyflwr da
- ✓ Proses rheoli meddyginiaethau dda
- × Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- × Gwelliannau i bolisïau a gweithdrefnau
- × Cael mynediad amserol i apwyntiadau

Deintyddfeydd

- ✓ Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a gafwyd
- ✓ Roedd gan bob deintyddfa staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol ym maes dadebru
- ✓ Proses sefydlu staff dda
- ✓ Cydymffurfiaeth dda ag arfarniadau blynyddol staff
- × Gweithgarwch archwilio clinigol a'r defnydd o adolygiadau cymheiriaid
- × Amlder archwiliadau a storio neu leoli cyfarpar brys
- × Dogfennaeth cofnodion clinigol
- × Storio gwastraff a'i gadw'n ddiogel

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

BIP Cwm Taf Morgannwg

Bu hon yn flwyddyn heriol iawn i'r bwrdd iechyd, un a ddechreuodd drwy gyhoeddi'r adroddiad ar wasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, lle nodwyd nifer o bryderon difrifol a methiannau gwasanaeth. Yn sgil canfyddiadau'r adroddiad mamolaeth, rhoddwyd y gwasanaethau hyn o dan Fesurau Arbennig, a chafodd statws cyffredinol y bwrdd iechyd ei uwchgyfeirio i Ymyriad wedi'i Dargedu hefyd.

Yn rhannol mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yn ogystal â'n pryderon ni'n hunain am systemau llywodraethu a rheoli risg, aed ati i gynnal adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu gydag Archwilio Cymru. Tynnodd yr adolygiad hwn sylw at nifer o ddiffygion sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd. Roeddem yn ofni bod y gwendidau hyn yn peryglu gallu'r bwrdd iechyd i nodi ac ymateb i broblemau a all godi o ran ansawdd a diogelwch gofal y cleifion, a hynny mewn ffordd ddigonol. Hefyd, nodwyd bod angen mynd ati ar frys i wneud gwelliannau er mwyn atgyfnerthu trefniadau presennol, strwythurau sefydliadol a rolau, yn ogystal â mynd i'r afael â nifer o faterion yn ymwneud â diwylliant y bwrdd iechyd. Yn arbennig, teimlwyd bod angen atgyfnerthu ac ehangu trefniadau arwain o ran ansawdd gofal a diogelwch y cleifion o fewn y bwrdd iechyd, a bod bylchau mewn trefniadau llywodraethu allweddol o ran rheoli a nodi risg, a darparu gwybodaeth i gefnogi gwaith craffu effeithiol gan y bwrdd a'i bwyllgorau.

Derbyniodd y bwrdd iechyd y canfyddiadau hyn yn llawn ac mae wedi llunio ymateb cadarnhaol i'r argymhellion. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw bod y bwrdd iechyd yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella. Ni ddylid tanamcangyfrif yr heriau a wynebir i wella trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion, a bydd yn gofyn am ymrwymiad a ffocws parhaus gan y bwrdd iechyd.

O ran ein gweithgarwch arolygu ein hunain yn ystod y flwyddyn, rydym wedi nodi rhai gwelliannau o gymharu â rhaglen waith y llynedd. Y llynedd, nododd ein hadroddiad blynyddol fod pryderon am ddiffyg dysgu sefydliadol o arolygiadau blaenorol, yn enwedig ym maes gwasanaethau iechyd meddwl. Eleni mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl wedi dangos bod sawl un o'r materion a nodwyd yn flaenorol wedi eu datrys, neu maent wrthi'n cael eu datrys. Mae'n amlwg bod y staff yn ymrwymedig i ddarparu'r gofal gorau posibl. Serch hynny, nododd dau o'n tri arolygiad faterion Sicrwydd Uniongyrchol, a'r mwyaf difrifol o'r rhain oedd pryderon am ofal diogel a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

BIP Cwm Taf Morgannwg

O ran ein harolygiadau o ysbytai eleni, roedd y rhain i gyd yn canolbwyntio ar wasanaethau mamolaeth, yn unol â'n Hadolygiad Cenedlaethol ehangach o Wasanaethau Mamolaeth. Fel y cyfryw, gwnaethom arolygu pob uned mamolaeth yn y bwrdd iechyd. Ar y cyfan nododd ein harolygiadau fod menywod yn teimlo'n gadarnhaol am eu gofal a'u profiad o ddefnyddio gwasanaethau mamolaeth drwyddi draw. Hefyd, nodwyd, ar y cyfan, fod y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref ym maes bydwreigiaeth. Mae'r rhain i gyd yn elfennau cadarnhaol ac yn dystiolaeth o'r gwaith mae'r bwrdd iechyd wedi'i wneud mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nifer o faterion Sicrwydd Uniongyrchol yn ein harolygiadau mamolaeth, gyda sawl un o'r rhain yn debyg ar bob safle. Er i lawer o'r materion hyn hefyd gael eu nodi ledled Cymru, mae'n glir serch hynny fod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod safonau'n gyson o fewn gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd.

Nodwyd materion diffyg cydymffurfio mewn un arolygiad IR(ME)R y llynedd. Felly, roedd yn gadarnhaol nodi na chodwyd unrhyw faterion o bwys yn arolygiadau eleni, gyda chydymffurfiaeth dda i'w gweld yn erbyn y rheoliadau. Mae'n bwysig bod y gwelliannau hyn yn parhau.

Byddwn yn parhau i fonitro'r bwrdd iechyd yn agos ac yn olrhain ei gynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad ar y cyd yn 2020-21.

BIP Cwm Taf Morgannwg

Ysbytai

- ✓ Roedd y menywod a'u teuluoedd yn gadarnhaol am eu gofal a'u triniaeth
- ✓ Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, a gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- ✓ Roedd trefniadau ar waith i roi cymorth profedigaeth a chymorth amenedigol i'r menywod a'u teuluoedd
- ✓ Roedd y staff yn gadarnhaol ar y cyfan am y gefnogaeth roeddent yn ei chael gan eu rheolwyr a gwelsom arweinyddiaeth gref ym maes bydwreigiaeth
- × Archwilio cyfarpar dadebru brys
- × Rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio cyffuriau'n ddiogel
- × Atgyfnerthu mesurau er mwyn sicrhau bod y risg o herwgydio babanod yn cael ei lliniaru
- × Diogelwch cofnodion y cleifion
- × Rhagnodi meddyginiaeth i ysgogi'r cyfnod esgor

Iechyd meddwl

- ✓ Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn barchus
- ✓ Roedd rhai o'r cyfleusterau mewn cyflwr da ac yn creu amgylchedd gofal pleserus
- ✓ Staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal urddasol
- ✓ Amrywiaeth o fentrau gofal dementia
- × Dogfennaeth glinigol a systemau rheoli risg gwael
- × Profiad a chymysgedd sgiliau'r staff, ynghyd â lefelau staffio
- × Rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio cyffuriau'n ddiogel
- × Cyfraddau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- × Ymgorffori archwiliadau clinigol
- × Methu â dogfennu, cofnodi nac adrodd ar ddigwyddiadau'n ddigonol

BIP Cwm Taf Morgannwg

Meddygfeydd

- ✓ Enghreifftiau cadarnhaol a chyfeillgar o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion
- ✓ Amgylcheddau glân a thaclus
- ✓ Tystiolaeth o dimau cryf, ac ymrwymiad i wneud gwelliannau
- × Angen atgyfnerthu trefniadau o ran cadw cofrestr o statws imiwneiddio ac imiwnedd hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol
- × Atgyfnerthu trefniadau gwirio staff wrth recriwtio staff newydd
- × Sicrhau bod cwynion yn cael eu cofnodi a'u hasesu'n briodol, gan gynnwys dangos y camau a gymerwyd o ganlyniad iddynt
- × Gwella gwefannau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaethau a gynigir

Deintyddfeydd

- ✓ Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth roeddent yn ei gael
- ✓ Gallai'r cleifion roi adborth i'r gwasanaeth mewn ffyrdd priodol
- ✓ Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion yn hawdd o fewn y gwasanaethau
- × Angen gwella cofnodion clinigol, gan gynnwys cyngor ar yfed alcohol a smygu, hanes meddygol, ailalw a chofnodi BPE

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

- ✓ Roedd cydymffurfiaeth â Rheoliadau IR(ME)R 2017 yn dda
- ✓ Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch-aelodau o'r staff
- ✓ Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- ✓ Roedd uwch-aelodau o'r staff yn croesawu ein harolygiad ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad
- × Sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fel mater o drefn am y risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'u harchwiliadau
- × Sicrhau bod y staff yn cynnal gwiriadau adnabod cleifion ac yn holi ynghylch statws beichiogrwydd yn rheolaidd cyn i gleifion ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio
- × Sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran er mwyn helpu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'[7]

[7] Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

BIP Hywel Dda

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gadarnhaol iawn am y gofal, y driniaeth a'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Rhoddodd y staff adborth cadarnhaol am y gefnogaeth a'r arweinyddiaeth a ddarparwyd gan uwch-reolwyr ward ac ysbyty. Nodwyd bod arferion gwaith amlddisgyblaethol effeithiol hefyd yn gadarnhaol ac yn alluogol.

Yn anffodus, unwaith eto eleni, nodwyd themâu a godwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol sy'n parhau i beri problemau i'r bwrdd iechyd. Yn arbennig nodwyd rheoli meddyginiaethau unwaith eto fel maes i'w wella.

Gwnaethom ymweld â chwe ysbyty ac arolygu deg ward. Cynhaliwyd tri arolygiad mewn ysbytai fel rhan o'n Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth. Ar y cyfan, nododd ein harolygiadau fod menywod yn teimlo'n gadarnhaol am eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau mamolaeth drwyddi draw. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio proffesiynol a thrugarog rhwng y staff a'r cleifion. Yn ystod ein harolygiadau o wasanaethau mamolaeth gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nifer o faterion Sicrwydd Uniongyrchol yn ein harolygiadau mamolaeth, gyda sawl un o'r rhain yn debyg ar bob safle. Nodwyd rhai o'r materion hyn ledled Cymru hefyd. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod gwaith i'w wneud i sicrhau bod safonau'n gyson o fewn gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd.

Gwnaethom gynnal un arolygiad anableddau dysgu ac un arolygiad iechyd meddwl. Roedd yn braf nodi na chyflwynwyd unrhyw lythyrau Sicrwydd Uniongyrchol. Yn y ddau arolygiad, nodwyd bod y gofal, y cymorth a'r driniaeth yn cael eu darparu mewn modd urddasol a pharchus.

Hefyd cynhaliodd AGIC arolygiad o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn Llanelli. Gwelsom fod ansawdd y gofal a'r ymgysylltu yn dda ar y cyfan, a bod defnyddwyr y gwasanaeth yn gadarnhaol ar y cyfan am y cymorth a gawsant. Gwelwyd bod dull amlddisgyblaethol ar waith ar gyfer asesu, cynllunio gofal ac adolygu, a bod defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses, lle roedd hynny'n briodol. Yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw at bryderon ynghylch gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac agweddau ar y gwaith o reoli meddyginiaeth. Ymdriniwyd â'n pryderon o dan ein proses Sicrwydd Uniongyrchol.



BIP Hywel Dda

Ar y cyfan, yn ein pedwar arolygiad o feddygfeydd, gwelsom eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Nodwyd bod y cofnodion yn cael eu cadw i safon dda. Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas ag arferion adnoddau dynol. Yn benodol, nodwyd nad oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cynnal mewn modd cadarn a chynhwysfawr.

Yn ein harolygiadau o ddeintyddfeydd, nodwyd eu bod yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion ar y cyfan, a hynny mewn modd proffesiynol ac ymroddedig. Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gadarnhaol iawn am y gwasanaethau a ddarparwyd. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella, a oedd yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff a phrosesau recriwtio cadarn.

Yn ystod ein holl arolygiadau a'n cyswllt â'r bwrdd iechyd, mae'n bwysig nodi y bu'r gydberthynas yn gadarnhaol ac yn alluogol. Dangoswyd hyn yn ein rhyngweithio â staff y wardiau a'r uwch-dîm gweithredol. Lle tynnwyd sylw at argymhellion / Sicrwydd Uniongyrchol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio datrys unrhyw faterion cyn gynted â phosibl. Rhaid canmol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am ei ddull o wella safonau gofal a diogelwch cleifion. Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, a rhaid canmol ei uwch-swyddogion gweithredol am ddilyn y trywydd hwn.

BIP Hywel Dda

Ysbytai

- ✓ Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion
- ✓ Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- ✓ Gwaith tîm amlddisgyblaethol da
- ✓ Ar y cyfan, roedd y staff yn gadarnhaol am y gefnogaeth roeddent yn ei chael gan eu rheolwyr
- × Rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio cyffuriau'n ddiogel
- × Archwilio cyfarpar dadebru brys
- × Cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant statudol a gorfodol
- × Dogfennaeth, gan gynnwys asesiadau risg
- × Arferion hylendid a rheoli heintiau

Iechyd meddwl

- ✓ Roedd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau yn cael ei darparu i'r cleifion
- ✓ Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- ✓ Hybu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf i'w helpu i wella
- ✓ Cynlluniau gofal unigoledig manwl
- ✓ Darpariaeth dda y tu allan i oriau, a gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ein harolygiad TIMC
- × Capasiti ei wasanaeth iechyd meddwl i gleifion mewnol sy'n oedolion
- × Trefniadau archwilio a llywodraethu
- × Y wybodaeth a'r llenyddiaeth a ddarperir ar y wardiau ar gyfer y cleifion
- × Cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant statudol a gorfodol
- × Gwella'r gwaith o reoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio cyffuriau'n ddiogel yn ein harolygiad TIMC
- × Gwiriadau DBS heb eu cwblhau'n ddigonol yn ein harolygiad TIMC

BIP Hywel Dda

Iechyd Meddwl Cymunedol

Gwnaethom arolygu Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Llanelli

- ✓ Ymgysylltiad defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwyr
- ✓ Gwaith amlddisgyblaethol a chysylltiadau ag asiantaethau eraill
- ✓ Darpariaeth y tu allan i oriau
- ✓ Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- × Rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio cyffuriau'n ddiogel
- × Gwiriadau DBS ar staff
- × Amseroedd aros seicoleg
- × Hyfforddiant ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer staff y bwrdd iechyd

Meddygfeydd

- ✓ Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch
- ✓ Cofnodion o safon dda
- ✓ Amrywiaeth dda o wybodaeth a mentrau hybu iechyd
- ✓ Cefnogaeth gan yr uwch-reolwyr
- × Cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- × Darparu mwy o wybodaeth ddwyieithog
- × Rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio cyffuriau'n ddiogel
- × Cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol

Deintyddfeydd

- ✓ Deintyddfeydd yn cael eu cynnal i safon uchel
- ✓ Roedd trefniadau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau
- ✓ Rhoddwyd digon o wybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth
- ✓ Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth ar y gofal a'r driniaeth a gawsant
- × Gwella'r broses o roi canllawiau 'Delivering Better Oral Health' ar waith a sicrhau y caiff tystiolaeth ei chofnodi yng nghofnodion y cleifion.
- × Sicrhau bod cofnodion cleifion clinigol yn cael eu cynnal yn unol â safon broffesiynol y cytunwyd arni
- × Cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ar y cyfan, bu'r arolygiadau yn 2019-20 yn gadarnhaol ar y cyfan. Nodwyd bod gofal urddasol, a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael ei ddarparu gan staff ymrwymedig ym mhob arolygiad, fel y gwelwyd yn ystod arolygiadau 2018-19.

Gwnaethom arolygu un feddygfa yn 2019-20 lle nododd y cleifion yn gyffredinol eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm yno. Gwelsom dystiolaeth o waith tîm da ymhlith staff y feddygfa. Roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod cofnodion cyflogaeth y staff yn gyfredol, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogi a gwybodaeth am hyfforddiant. Roedd angen rhaglen o archwiliadau clinigol er mwyn sicrhau bod y feddygfa yn adolygu ei gweithgareddau'n rheolaidd.

Roedd yn braf gweld tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol effeithiol yn ein harolygiadau o ysbytai, lleoliadau iechyd meddwl a TIMC. Yn arbennig, roedd lefel yr integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y TIMC yn gadarnhaol iawn, o gymharu ag arolygiad TIMC yn y bwrdd iechyd y flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi gwelliannau yn amseroedd aros y cleifion ar gyfer gwasanaethau seicoleg o fewn y TIMC.

Hefyd, nodwyd bod y gwaith o gynllunio a dogfennu gofal yn dda, gyda'r rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt wedi'u cwblhau'n fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, nodwyd meysydd i'w gwella gyda rhai agweddau ar ddogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn nifer o leoliadau. Mae hwn yn faes lle cafwyd canfyddiadau tebyg yn ein harolygiad TIMC yn 2018-19.

Yn ein harolygiadau o ysbytai, lleoliadau iechyd meddwl a TIMC nodwyd bod prosesau llywodraethu ac archwilio cefnogol ar waith. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd lle gellid gwella hyn, megis sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n amserol, a sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth fwyaf priodol a chyfredol i'w cefnogi yn eu gwaith. Roedd hefyd yn siomedig nodi, mewn un arolygiad iechyd meddwl, i welliannau a nodwyd yn ystod arolygiad 2017 gael eu nodi eto yn yr arolygiad hwn.

Ar y cyfan, nododd y staff fod amgylchedd gwaith tîm da ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr a'u cydweithwyr. Gwelsom fod y bwrdd iechyd yn dal i'w chael hi'n anodd llenwi rhai swyddi gwag. Fodd bynnag, roedd y bwrdd iechyd yn hysbysebu er mwyn denu ymgeiswyr i'r rolau hyn. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, nodwyd bod lefelau staffio priodol ym mhob lleoliad i helpu i ddarparu gofal o safon dda.

Er inni weld gwaith cynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion ym mhob lleoliad, nodwyd y gallai fod oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty am fod prinder lleoliadau gofal cymdeithasol a/neu ymgysylltiad â gofal cymdeithasol.

Roedd yn siomedig nodi nifer o faterion yn ymwneud ag ystadau mewn amrywiaeth o wasanaethau yn y bwrdd iechyd, yr oedd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod gan y cleifion amgylchedd diogel. Rhaid hefyd ystyried cynllun rhai wardiau iechyd meddwl. Nodwyd bod ystafelloedd â dau unigolyn ynddynt a chyfleusterau ystafell ymolchi a oedd yn cael eu rhannu yn cael effaith negyddol ar allu'r staff i ddarparu gofal urddasol.

Gwnaethom arolygu chwe uned canolfan geni yn y bwrdd iechyd, ac er inni nodi eu bod yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd rhai anghysondebau yn y broses a ddefnyddir i gael y wraig feichiog o bwll geni mewn argyfwng. Hefyd, nid oedd rhywfaint o'r cyfarpar cynorthwyol a ddefnyddir mewn argyfwng o'r fath ar gael ym mhob uned. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd llythyr sicrwydd uniongyrchol i'r bwrdd iechyd er mwyn iddo gymryd camau adferol ar frys. Cawsom sicrwydd yn sgil y camau a gymerwyd.



BIA Powys

Ysbytai

- ✓ Roedd y cleifion yn derbyn gofal urddasol a pharchus gan staff ymrwymedig
- ✓ Gwaith tîm amlddisgyblaethol
- ✓ Nodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u hanghenion h.y. cynllun pili pala a nodi'r rhai sydd angen cymorth i fwyta ac yfed
- ✓ Ar y cyfan, ceir prosesau llywodraethu, archwilio ac adolygu clinigol da
- ✓ Archwilio cyfarpar brys
- × Materion amgylcheddol
- × Defnydd cyson o adnodd asesu poen
- × Gallu'r bwrdd iechyd i lenwi swyddi gwag
- × Cwblhau meysydd mewn dogfennaeth Deddf Iechyd Meddwl
- × Effaith diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol ar gynllunio i ryddhau cleifion
- × Yr angen i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru

Meddygfeydd

- ✓ Cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch
- ✓ Amgylchedd cefnogol, lle mae'r tîm yn cydweithio'n dda
- ✓ Cleifion yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau dros feddyginiaeth a ragnodwyd
- ✓ Amgylchedd clinigol glân a thaclus
- × Yr angen i roi rhaglen o archwiliadau clinigol ac archwiliadau ansawdd ar waith
- × Cofnodion personél y staff i gael eu cynnal a'u cadw'n briodol, gan gynnwys gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant
- × Cyfathrebu'n ffurfiol â'r staff, gan gynnwys cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd staff clinigol i ledaenu gwybodaeth yn briodol

BIA Powys

Iechyd meddwl

- ✓ Roedd y cleifion yn derbyn gofal urddasol ac unigol, gan gynnwys cynlluniau gofal, gan staff ymrwymedig
- ✓ Gwaith tîm amlddisgyblaethol ym mhob gwasanaeth, a lefel dda o waith integredig yn y TIMC
- ✓ Defnyddio technegau tynnu sylw, yn hytrach nag atal yn gorfforol yn yr ysbyty
- ✓ Er nad oedd yn wir am y ddwy ward ysbyty, gwelsom enghreifftiau o arfer nodedig y gellid ei rhannu (defnyddio cyngor cleifion a dogfen 'Dyma fi')
- ✓ Proses amserol ar gyfer sgrinio atgyfeiriadau newydd o fewn y TIMC
- ✓ Lleihad sylweddol mewn amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau seicoleg o fewn y TIMC (o ddwy flynedd i ddau neu dri mis)

- × Cynllun rhai wardiau ysbyty, gyda rhai o'r cleifion yn rhannu ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi, yn cael effaith ar allu'r staff i ddarparu gofal urddasol bob amser
- × Cyfranogiad ac argaeledd darparwyr gofal cymdeithasol yn effeithio ar drefniadau rhyddhau cleifion
- × Angen adolygu polisïau a gweithdrefnau am fod llawer wedi dyddio
- × Gallu'r bwrdd iechyd i lenwi swyddi gwag
- × Amgylchedd ysbyty Bronllys
- × Problemau mawr gyda'r system TG a ddefnyddiwyd ar gyfer cofnodion y cleifion, gan arwain at atal y staff rhag cael gafael ar gofnodion yn amserol (cyflwynwyd SU ar gyfer hyn)
- × Cywirdeb dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl a'i chwblhau
- × Rhai trefniadau ar gyfer ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â'r cleifion yn y TIMC, megis argaeledd meddygon Adran 12, argaeledd gwelyau cleifion mewnol lleol, a chludiant amserol a diogel ar gyfer y cleifion i'r ysbyty
- × Amrywiaeth o hyfforddiant arbenigol i'r staff a chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol o fewn y TIMC

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

BIP Bae Abertawe

Yn gyffredinol, ym mhob lleoliad, roedd y cleifion yn gadarnhaol iawn am eu gofal a'u triniaeth. Roedd grŵp proffesiynol o staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am eu gofal yn gyson, gan eu galluogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Gwelsom waith tîm da ym mhob lleoliad, ac awydd i ddysgu o weithgarwch arolygu a gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau llywodraethu er mwyn hybu dysgu rhwng lleoliadau.

Mewn rhai lleoliadau, gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a oedd yn teimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi wrth godi pryderon ac yn dilyn digwyddiadau clinigol. Yn ogystal â hyn, dywedwyd nad oedd digon o bresenoldeb uwch aelodau o'r staff na staff gweithredol mewn ardaloedd gweithredol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol sylweddol o ran ei wiriadau cyn cyflogi ar ôl adolygiad Kris Wade. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob lleoliad yn y bwrdd iechyd, gyda rhaglen barhaus o fonitro ac archwilio

Gwnaethom arolygu dwy uned famolaeth ym mwrdd iechyd Bae Abertawe fel rhan o'n hadolygiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru. Roedd y rhain yn ysbytai Singleton a Chastell-nedd Port Talbot. Ar y cyfan, roedd y ddau arolygiad yn gadarnhaol. Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn ac yn canmol y gofal, y driniaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu rhoi gan y staff.

Yn fwyaf diweddar, mewn arolygiad o Adran Achosion Brys ac Uned Asesu Meddygol Acíwt yn Ysbyty Treforys a gynhaliwyd cyn Covid-19, tynnwyd sylw at bryderon sylweddol mewn nifer o feysydd. Nodwyd nifer o faterion Sicrwydd Uniongyrchol mewn perthynas â rheoli a rhoi meddyginiaeth, cynnal a chadw cyfarpar dadebru, atal a rheoli heintiau ac amseroedd asesu ar gyfer cleifion sy'n cyrraedd mewn ambiwlans. Bydd AGIC yn parhau i fonitro cynnydd y bwrdd iechyd wrth ddelio â'r materion hyn. Mae'r manylion llawn wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad ar gyfer Adran Achosion Brys ac Uned Asesu Treforys ar ein gwefan.



BIP Bae Abertawe

Ysbytai

- ✓ Proses ddiogel a chadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar bob ward a arolygwyd
- ✓ Roedd y ddogfennaeth o safon uchel iawn
- ✓ Roedd y cyfarpar yn y ganolfan eni yn cael ei wirio'n rheolaidd ac yn gyson er mwyn cynnal safonau
- ✓ Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, a gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- ✓ Dangosodd staff yr Adran Achosion Brys a'r Uned Asesu Meddygol Acíwt ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol
- × Archwilio'r trefniadau archwilio er mwyn sicrhau cysondeb a hyrwyddo rhannu a dysgu
- × Dylai pob claf gael ei ryddhau mewn modd amserol
- × Bod y rotâu staffio'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio'n ddiogel ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth
- × Roedd y cleifion yn aros yn nhair ardal aros yr Adran Achosion Brys am gyfnodau hir iawn, gyda rhai yn aros am hyd at 15 i 20 awr
- × Nid oedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu diwallu'n gyson yn yr Adran Achosion Brys

Iechyd meddwl

- ✓ Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad
- ✓ Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- ✓ Roedd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau yn cael ei darparu i'r cleifion
- × Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddarpariaeth iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r ffordd y caiff gofal iechyd meddwl ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- × Yr amgylchedd gofal, er mwyn i'r staff reoli diogelwch y wardiau
- × Cynllun yr ystafelloedd clinig a'r ffordd y caiff meddyginiaeth ei storio
- × Y broses o gadw cofnodion a chwblhau dogfennaeth glinigol

BIP Bae Abertawe

Meddygfeydd

- ✓ Trefniadau ar gyfer rheoli atgyfeiriadau cleifion
- ✓ Adolygu clinigol gan gymheiriaid a chymorth
- ✓ Roedd y practis yn treialu dulliau newydd o rannu gwybodaeth a gofal iechyd ataliol gan ddefnyddio ap i'r cleifion.
- ✓ Amrywiaeth dda o wasanaethau ar gael i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am hybu iechyd, yn ogystal â chlinigau rheolaidd ar gyfer cyflyrau parhaus
- ✓ Cynlluniau parhau busnes a chynlluniau argyfwng cynhwysfawr ar waith.
- × Sefydlu clinigau rheoli clefydau cronig
- × Rhai agweddau ar gadw cofnodion cleifion.
- × Ni allai'r practis ddarparu tystiolaeth o imiwnedd rhag Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Gwelsom gofnodion ar gyfer rhai aelodau o'r staff, ond nid pob un
- × Roedd cyfarpar monitro pwysedd gwaed, taldra a phwysau yn cael ei gadw y tu ôl i ddesg y dderbynfa ac nid oedd hyn yn cynnal cyfrinachedd y cleifion.
- × Nid oedd rhai aelodau o'r staff yn gwybod ble roedd y diffibriliwr ac nid oedd y cyfarpar dadebru yn cynnwys mwgwd bag-falf er mwyn helpu cleifion i anadlu.
- × Nid oedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel bob amser

Deintyddol

- ✓ Roedd y staff yn cael eu cefnogi ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n effeithlon
- ✓ Roedd yr amgylchedd yn darparu cyfleusterau clinigol gydag offer digonol a oedd mewn cyflwr da ac yn edrych yn lân ac yn daclus
- ✓ Lefelau da iawn o foddhad cleifion
- ✓ Roedd y wybodaeth gywir yn cael ei rhoi i'r cleifion er mwyn iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu triniaeth
- ✓ Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r cyfleusterau clinigol yn addas at y diben
- ✓ Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau
- × Cofnodi gwybodaeth ychwanegol yn nodiadau'r cleifion, er enghraifft hanes meddygol parhaus
- × Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio'n wythnosol
- × Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau pediatrig addas ar gael yn y pecyn argyfwng
- × Mae angen i'r bwrdd iechyd gael gwared ar y cyfarpar a ddatgomisiynwyd
- × Mae angen i'r cofnodion clinigol gynnwys cydsynio parhaus

Ymddiriedolaethau – Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Public Health Wales

Gwnaethom gynnal arolwg o Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn asesu'r ffordd y mae Bron Brawf Cymru yn sicrhau y caiff y broses o sgrinio'r fron ei rheoli'n amserol ar gyfer menywod sy'n cael canlyniad mamogram abnormal.

Drwy gydol yr adolygiad, roedd y sefydliad yn agored ac yn barod i helpu. Roedd hyn yn cynnwys rhoi amrywiaeth o wybodaeth i AGIC, a helpu i hwyluso'r broses o ddosbarthu arolwg i gasglu safbwyntiau ac adborth gan fenywod.

Anfonwyd yr arolwg at bob menyw a ailalwyd i glinig asesu i gael profion ac ymchwiliadau pellach o fis Hydref tan fis Rhagfyr 2019, ac a gafodd ganlyniad anfalaen, h.y. ni nodwyd canser. Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhan fwyaf o'r menywod yn dweud bod eu profiad yn ardderchog. Hefyd, cawsom lawer o sylwadau gan fenywod yn canmol proffesiynoldeb a natur ofalgar y staff.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

